Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG50622**

Llywodraeth Cymru
# Dogfen Ymgynghori

# Hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda

Dyddiad cyhoeddi:  15 Tachwedd 2024

Ymatebion erbyn: 17 Ionawr 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2024

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar wella cydnerthedd a pherfformiad awdurdodau cynllunio drwy wneud y canlynol:

- Cynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio (gan gynnwys cynnig llwybr i adennill costau llawn)
- Mesur a monitro perfformiad awdurdodau cynllunio drwy ailfywiogi ac ailgyflwyno'r Fframwaith Perfformiad
- Cefnogi cydnerthedd, gallu a galluogrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol drwy gadw sgiliau, bwrsarïau a phrentisiaethau
- Gwella cydnerthedd ac adnoddau Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy ddarparu gwasanaethau ar y cyd, hybiau sgiliau cynllunio ac ymestyn cyfnod Adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **17 Ionawr 2025** a gallwch ymateb gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

E-bost: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i: planconsultations-a@llyw.cymru

Cofiwch gynnwys WG50622 'Hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda' yn y llinell pwnc

Post: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

WG50622 – Hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

E-bost: planconsultations-a@llyw.cymru

Ffôn: Candice Coombs ar 0300 025 3882
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: hyperlink

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni rôl graidd a swyddogaethau Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgyngoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF, Ffôn: 0303 123 1113Gwefan: https://ico.org.uk

## Tabl Cynnwys

**Cyflwyniad a throsolwg** 5

Diben a chwmpas yr ymgynghoriad 6

**Rhan 1: Cynyddu Ffioedd Cynllunio**

Cyflwyniad: Diben ffioedd cynllunio 8

Y sail ar gyfer ffioedd cynllunio 9

Y Mater: Cynyddu ffioedd cynllunio a'r newid i adennill costau llawn 9

Ein cynigion: 10

- Symud tuag at adennill costau llawn 10
- Cynyddu a mynegeio ffioedd cenedlaethol yn flynyddol 13
- Newidiadau i drothwyon ffïoedd newidiol ar gyfer datblygiadau preswyl 15
- Categorïau ffioedd deiliaid tai 15
- Ceisiadau ôl-weithredol 16
- Materion a gadwyd yn ôl 17
- Ceisiadau adnewyddu 17
- Ffioedd ar gyfer ceisiadau lle nad oes tâl ar hyn o bryd 18
- Clustnodi incwm o ffioedd 19
- Apeliadau 19
- Mireinio'r rheoliadau ffioedd – cynigion ar gyfer y dyfodol 23

Paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol 24

Atodiad A – Rhestr Ffioedd Arfaethedig 2024 25

Atodiad B – Llwybr Adennill Costau Llawn Dangosol (Enghreifftiau) 37

**Rhan 2: Perfformiad, Cydnerthedd a Gallu Awdurdodau Cynllunio Lleol**

Mesur a monitro perfformiad awdurdodau cynllunio lleol 39

Trosolwg – Y Fframwaith Perfformiad Cynllunio 39

Ein cynigion: 40

- Ailfywiogi'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio 40
- Newidiadau i dargedau a dangosyddion 41
- Cytundebau estyniad amser 42
- Mesurau cydnerthedd 42

Cynyddu adnoddau yn y system gynllunio – cefnogi cydnerthedd, gallu a galluogrwydd ACLlau 43

Ein cynigion

- Recriwtio a chadw sgiliau – cyffredinol 43
- Cynlluniau bwrsari a phrentisiaeth 44
- Gwella cydnerthedd ac adnoddau Cyd-bwyllgorau Corfforedig 45

Ein cynigion:

- Darparu gwasanaethau ar y cyd a hybiau sgiliau cynllunio 45
- Cefnogi'r newid i Gynlluniau Datblygu Strategol – Ymestyn y cyfnod adolygu statudol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol 47

Effeithiau ar y Gymraeg 48

# PAPUR YMGYNGHORI

## Cyflwyniad a Throsolwg

1. Mae gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda yn hanfodol ar gyfer gwlad lwyddiannus a chynhwysol.  Mae'n rhan sylfaenol o'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan roi sicrwydd i fusnesau a chymunedau ynglŷn â'r ffordd y bydd lleoedd yn tyfu ac yn newid. Mae'r gwasanaeth cynllunio'n ei chael yn anodd bodloni'r disgwyliadau sydd arno oherwydd pwysau ariannol a staffio sylweddol o ganlyniad i gyni yn y sector cyhoeddus.

2.  Caiff amrywiaeth o waith ei wneud gan weithwyr cynllunio proffesiynol. Mae gan gynllunwyr amrywiaeth eang o arbenigedd a sgiliau ac, ar y cyd â 'phroffesiynau cysylltiedig yn yr amgylchedd adeiledig', maent yn gwneud cyfraniad mawr at helpu i sicrhau cartrefi newydd, twf economaidd, ymateb i newid hinsawdd ac adfer byd natur. Maent yn sicrhau y caiff datblygiadau eu dylunio'n dda, y cynllunnir ar eu cyfer mewn modd cynhwysfawr, ac y cânt eu hategu gan y seilwaith angenrheidiol, ac yn sicrhau y caiff lleoedd eu creu mewn mannau y mae pobl am fyw a gweithio ynddynt nawr ac yn y dyfodol. Mae sicrhau bod gan Gymru ddigon o gynllunwyr, sydd â'r sgiliau cywir yn y meysydd cywir, yn hanfodol er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyfunol.

3. Mae tystiolaeth a gyhoeddwyd dros y blynyddoedd diwethaf gan Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) yn rhoi cipolwg ar iechyd gwasanaethau cynllunio yng Nghymru a'r problemau a'r heriau sy'n gysylltiedig â chydnerthedd ac adnoddau cynllunio. Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos lleihad sylweddol mewn adnoddau yn y system gynllunio a bod hyn wedi effeithio ar allu awdurdodau cynllunio lleol (ACLlau) i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Ers 2008, mae toriadau sylweddol wedi cael eu gwneud i wariant, ac mae cyllidebau wedi lleihau tua 50% mewn termau real gan ystyried chwyddiant. Cyllidebau rheoli datblygu sydd wedi wynebu'r toriadau mwyaf, sef tua 60%. Er y lleihad hwn mewn cyllid, mae awdurdodau'n parhau i roi cymorthdaliadau tuag at wasanaethau cynllunio am nad yw'r taliadau a godir gan ACLlau am weinyddu a chymeradwyo ceisiadau cynllunio'n adlewyrchu'r gost sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau hyn. Rhagwelir bod y sefyllfa wedi gwaethygu ymhellach ers i'r adroddiadau hyn gael eu cyhoeddi. O hyn ymlaen, cyfeirir at y cyfuniad o adroddiadau ymchwil a restrir isod a'u hargymhellion fel "y dystiolaeth" yn y ddogfen ymgynghori hon.

- Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru (Mehefin 2019) – Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru (archwilio.cymru)

- Y Sgwrs Fawr: Llesiant cynllunwyr a'r effaith ar y system gynllunio yng Nghymru (Ionawr 2023) – y-sgwrs-fawr-final.pdf (rtpi.org.uk)

- Building Capacity through Collaboration and Change – Making the most efficient and effective use of existing planning resources in Wales – RTPI | Building Capacity through Collaboration and Change

- Building Capacity through Collaboration and Change – Making the most efficient and effective use of existing planning resources in Wales (Adroddiad Diweddaru, Tachwedd 2023) – rtpi-cymru-building-capacity-through-collaboration-and-change-report-november-2023.pdf

- Building Capacity through Collaboration and Change – Making the most efficient and effective use of existing planning resources in Wales (Adroddiad Diweddaru, Mawrth 2024) – rtpi-cymru-building-capacity-through-collaboration-and-change-update-report-march-2024.pdf

4. Yn ogystal â thoriadau i gyllidebau, mae'r dystiolaeth yn dangos bod gofynion cynyddol ar y system gynllunio wedi golygu bod y system wedi bod yn ceisio gwneud mwy â llai. Mae tystiolaeth yn dangos bod prinder sgiliau mewn meysydd cynllunio pwysig ac arbenigol. Mae gallu swyddogion cynllunio dan bwysau yn sgil cynnydd mewn llwyth gwaith dros y blynyddoedd diwethaf ac, mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar lesiant. Mae recriwtio a chadw staff yn her sylweddol ym mhob maes, ac mae'n rhaid hysbysebu llawer o swyddi gwag nifer o weithiau. Ar ben hynny, ceir pryderon ynglŷn ag effaith y 'proffil oedran', lle mae cynllunwyr medrus a phrofiadol yn cyrraedd oedran ymddeol, a gaiff ei dwysáu ymhellach gan leihad sylweddol yn nifer yr hyfforddeion sy'n ymuno â'r proffesiwn. Mae gwasanaethau cynllunio'n wynebu risg sylweddol o fethu, ac nid yw cydsyniad yn cael ei roi'n brydlon i brosiectau allweddol.

5. Byddwn yn gweithio gydag RTPI dros y misoedd nesaf er mwyn comisiynu gwaith newydd i ystyried cynllunio'r gweithlu gyda'r nod o gyhoeddi adroddiad yn 2025. Bydd hyn yn rhoi darlun manwl o'r sefyllfa o ran adnoddau sgiliau ym mhob rhan o'r gwasanaeth cynllunio yng Nghymru, a fydd yn fodd i dargedu adnoddau â ffocws pendant.

**Diben a Chwmpas yr Ymgynghoriad hwn**

6. Nid oes ffordd syml o oresgyn yr her sy'n gysylltiedig â darparu adnoddau ar gyfer gwasanaeth cynllunio effeithiol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda'r holl randdeiliaid er mwyn sicrhau bod y system gynllunio mewn sefyllfa well i wynebu heriau'r presennol a'r dyfodol. Fodd bynnag, ni all Llywodraeth Cymru gyflawni hyn ar ei phen ei hun. Bydd angen ymdrech benderfynol a chyfunol er mwyn gwneud gwahaniaeth mesuradwy a rhoi sail gadarnach i'n gwasanaeth cynllunio. Rhaid inni fod yn feiddgar ac yn greadigol a pheidio â chael ein cyfyngu gan drefniadau darparu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli.

7. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi amrywiaeth o opsiynau sydd â'r potensial i wella cydnerthedd a gallu gwasanaethau cynllunio, ac mae wedi'i rannu'n ddwy ran. Mae **Rhan 1** yn nodi ein cynigion i gynyddu'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ACLlau drwy gynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio. Bydd hyn yn sicrhau sail ariannol fwy cynaliadwy i wasanaethau cynllunio lleol yn y dyfodol. Yn y gorffennol, mae ffioedd wedi cael eu cynyddu mewn ffordd afreolaidd (eu diweddaru bob 4-5 mlynedd) ac maent bob amser wedi bod yn ceisio 'dal i fyny', a hynny er anfantais i ACLlau a'u

gallu i gynnal gwasanaethau cynllunio a/neu ddarparu adnoddau ar eu cyfer. Mae ein cynigion yn cynnwys llwybr i adennill costau llawn (yn seiliedig ar dystiolaeth) lle y bydd y rhan fwyaf o geisiadau'n llwyddo i adennill costau llawn o fewn 3-5 mlynedd. Rydym hefyd yn cynnig cynyddu ffioedd bob blwyddyn, yn unol â chwyddiant.

8. Er bod ymgeiswyr yn dweud wrthym eu bod yn fodlon talu am well gwasanaethau cynllunio, mae angen iddynt gael sicrwydd y bydd gwelliannau'n para. Dim ond os bydd perfformiad cynllunio hefyd yn gwella y mae'r Llywodraeth yn fodlon cynyddu ffioedd. Bydd gan bawb ffordd wahanol o farnu perfformiad ond, yn y pen draw, rydym i gyd am weld system sy'n brydlon, yn effeithlon ac yn sicrhau datblygiadau o safon uchel. Mae **Rhan 2** o'r ymgynghoriad hwn yn cynnig ailfywiogi'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio a fydd yn fodd i fonitro perfformiad yn fwy effeithiol. Nawr yw'r amser priodol i ystyried fformat presennol adroddiadau perfformiad blynyddol a'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio, ac ystyried o'r newydd beth y dylem ei fesur a pham, a pha wybodaeth/data/targedau y bydd angen inni eu casglu er mwyn mesur perfformiad a chydnerthedd ACLlau yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau mwy o dryloywder wrth ddarparu gwasanaethau ac yn golygu y gellir rhoi cymorth cynharach sydd wedi'i dargedu'n fwy lle bo angen.

9. Bwriedir i'n cynigion ar gyfer ffioedd ystyried y gost sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth rheoli datblygu ACLl yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r arian ar ei ben ei hun yn ddigon i fodloni holl ofynion gwasanaeth effeithiol o ran adnoddau. Rydym hefyd yn awyddus i ddeall sut y gellir dod ag adnoddau ychwanegol, gan gynnwys y galw a'r potensial am brentisiaethau a chynlluniau bwrsari, i mewn i'r system er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau a buddsoddi yng nghynaliadwyedd gwasanaethau cynllunio lleol yn y tymor hwy. Mae **Rhan 2** o'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar amrywiaeth o fesurau, cynigion a chamau gweithredu a allai wella cydnerthedd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan opsiynau cyflawni rhanbarthol, gan gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynllunio gwasanaethau ac yn cyflawni mewn meysydd arbenigol eraill, ran bwysig i'w chwarae. Rhaid i ACLlau weithio'n well yn rhanbarthol er mwyn sicrhau y caiff manteision graddfa weithredol eu cyflawni drwy wasanaethau mwy a chyfuno adnoddau.

10. Yn olaf, rydym hefyd yn awyddus iawn i glywed syniadau pellach er mwyn darparu adnoddau ar gyfer system gynllunio, a hynny nawr ac yn y dyfodol, ac ystyried unrhyw arferion gorau sydd eisoes yn bodoli ac adeiladu arnynt. Drwy'r mesurau a'r camau gweithredu a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn, rydym am sicrhau bod gwasanaethau cynllunio yn gynaliadwy ac yn gydnerth a bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i ddarparu gwasanaeth sy'n perfformio'n dda i ymgeiswyr a chymunedau.

# RHAN 1: Cynyddu Ffioedd Cynllunio

**Cyflwyniad: Diben ffioedd cynllunio**

11. Mae'r system gynllunio yn rheoli'r ffordd y caiff tir ei ddatblygu a'i ddefnyddio er budd y cyhoedd, gan flaenoriaethu manteision cyfunol hirdymor, yn ogystal â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn helpu'r system gynllunio i gyflawni'r amcanion hyn, mae angen i ACLlau gael yr adnoddau angenrheidiol a'u defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

12. Er y bydd ACLlau yn gwneud penderfyniadau cynllunio er budd ehangach y cyhoedd, byddant yn aml yn arwain at fudd preifat i ymgeiswyr. Er enghraifft, bydd eiddo neu safle datblygu sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer gwaith a gwelliannau fel arfer yn llawer mwy gwerthfawr na'r un safle heb ganiatâd. Gan fod unigolion a busnesau preifat mewn sefyllfa i allu elwa yn sgil caniatâd cynllunio, codir ffi mewn perthynas â chais cynllunio, y bwriedir iddi adlewyrchu cyfanswm y gost sy'n gysylltiedig ag ymdrin â'r cais, ei weinyddu a phenderfynu arno. Y brif ffynhonnell gyllid ar gyfer cyflawni swyddogaethau rheoli datblygu ACLlau yw'r incwm a geir o'r ffioedd am benderfynu ar geisiadau. Bwriedir i lefelau ffioedd gynnwys adennill costau uniongyrchol sy'n deillio o'r broses hon a dosraniad o orbenion cysylltiedig.

13. Yn 2015, cafodd ffioedd cynllunio eu cynyddu tua 15% ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau ac, yn 2020 (y diweddariad diwethaf), cawsant eu cynyddu tuag 20%. Hyd yma, mae'r ffioedd wedi cael eu cynyddu ar sail 'codiad canrannol cyffredinol', ac ar sail cost wirioneddol prosesu ceisiadau. Nid yw'r ffioedd wedi cael eu cynyddu'n unol â chwyddiant, cost uniongyrchol prosesu ceisiadau na'r adnoddau anghymesur a ddefnyddir i'w prosesu.

14. Mae'r papur ymgynghori hwn yn nodi cynigion i newid ffioedd ceisiadau cynllunio yng Nghymru, gan gynnwys newidiadau i ba mor aml y cânt eu diweddaru.

**Y sail gyfreithiol ar gyfer ffioedd cynllunio**

15. Mae adran 3030 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") yn rhoi'r pŵer angenrheidiol i Weinidogion Cymru ragnodi ffioedd neu daliadau mewn cysylltiad â swyddogaethau cynllunio. Ar hyn o bryd, mae ffioedd ceisiadau cynllunio ACLlau wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 Rhif 1522 (fel y'u diwygiwyd) ("Rheoliadau 2015").

16. Mae adran 303ZA o Ddeddf 1990 yn rhoi'r pŵer angenrheidiol ar gyfer ffioedd sy'n gysylltiedig ag apeliadau cynllunio. Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu ffi ar gyfer apeliadau ar hyn o bryd ac felly nid oes rheoliadau ffioedd ar waith ar hyn o bryd. Fodd bynnag, hoffem gael gwybod safbwyntiau ar gyflwyno ffi ar gyfer apeliadau cynllunio fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. (gweler adran 63-72).

17. Ar hyn o bryd, mae adrannau 303 a 303ZA o Ddeddf 1990 yn rhoi'r pwerau angenrheidiol i Weinidogion Cymru ragnodi ffioedd neu daliadau mewn cysylltiad â swyddogaethau awdurdodau cynllunio ac apeliadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau rhestredig ac adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth. Bydd Deddf yr Amgylchedd

Hanesyddol (Cymru) 2023, a ddaw i rym cyn bo hir, yn disodli'r darpariaethau hyn yn adrannau 167 a 172 o'r Ddeddf hon. Hoffem gael gwybod safbwyntiau ar briodoldeb neu ddiffyg priodoldeb cyflwyno ffi gan ddefnyddio'r pwerau hyn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn (gweler adran 59-60).

18. Mae adran 303(1) o Ddeddf 1990 yn darparu ar gyfer codi ffioedd a thaliadau am gyflawni unrhyw swyddogaeth sydd gan yr awdurdod cynllunio lleol, ac mae hynny'n cynnwys swyddogaethau sy'n gysylltiedig â chadw coed. Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu ffi ar gyfer y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd ac felly nid oes rheoliadau ffioedd ar waith ar hyn o bryd. Hoffem gael gwybod safbwyntiau ar gyflwyno ffi gan ddefnyddio'r pwerau hyn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn (gweler adran 59-60).

19. Mae rheolau Trysorlys y DU yn ei gwneud yn ofynnol i ffioedd fod yn ddim mwy na'r hyn sydd ei angen i adennill costau. *WG24091 Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (llyw.cymru)* Hefyd, caiff ffioedd cynllunio eu pennu ar sail genedlaethol ar hyn o bryd er mwyn sicrhau dull cyson ledled Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd gwahanol ACLlau yn adennill costau i raddau amrywiol yn dibynnu ar eu gorbenion costau a'u heffeithlonrwydd.

## Cynyddu Ffioedd Cynllunio a'r Newid i Adennill Costau Llawn

### Y Mater

20. Mae paragraffau 1 i 3 o'r ddogfen ymgynghori hon yn esbonio'r heriau sy'n wynebu adrannau cynllunio ledled Cymru ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa'n ddybryd ac yn debygol o waethygu ymhellach oni roddir sail ariannol fwy cynaliadwy i ACLlau. Ni all ACLlau ddarparu adnoddau digonol ar gyfer eu gwasanaethau rheoli datblygu tra bo'r gyfundrefn ffioedd yn ceisio ‘dal i fyny’ drwy'r amser. O ganlyniad i hynny, mae ACLlau yn symud ymhellach i ffwrdd oddi wrth adennill costau. Os caniateir i'r sefyllfa hon barhau, mae'n debygol o gael effaith andwyol ar y ffordd y caiff tir ei ddatblygu a'i reoli yng Nghymru, ac ar ein gallu i wneud cynnydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol fel gwlad.

21. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cefnogaeth gyffredinol o blaid adennill costau llawn wrth bennu cyfundrefnau ffioedd. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod angen ffordd newydd o weithredu er mwyn sicrhau bod lefelau ffioedd yn adlewyrchu cost wirioneddol darparu gwasanaethau rheoli datblygu. Byddai hyn yn sicrhau bod gan ACLlau yr adnoddau i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

22. Yn y gorffennol, mae cynnydd mewn ffioedd wedi cael eu cymhwyso'n anghymesur at ddatblygiadau mwy wrth i ffioedd gwneud cais deiliaid tai aros yn gymharol isel, er mai ceisiadau deiliaid tai yw'r mwyafrif o'r gwaith achos, ac er eu bod hefyd yn defnyddio'r mwyaf o adnoddau yn lleol. Canlyniad y ffordd hon o weithredu yw bod ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr bellach yn rhoi croesgymorthdaliadau ar gyfer prosesu ceisiadau deiliaid tai. Mae ACLlau sydd â llawer o ddiddordeb datblygwyr mewn safleoedd mwy yn cael nifer mwy o geisiadau mawr ac yn dod yn nes at adennill costau llawn. Daeth gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Llywodraeth Cymru i'r casgliad mai dim ond dau ACLl a oedd yn dod yn agos at adennill costau llawn, sef Caerdydd a Sir y Fflint. Mae hyn yn golygu nad

yw'r dull presennol o bennu ffioedd yn deg ar gyfer yr holl ACLlau yng Nghymru, yn enwedig ACLlau llai o faint a mwy gwledig a gaiff geisiadau o natur lai fel arfer.

23. I grynhoi, rydym yn cydnabod nad yw cynyddu ffioedd cynllunio ar sail canran benodol o bryd i'w gilydd, gan gynnwys cadw'r anghydbwysedd presennol rhwng ceisiadau deiliaid tai a cheisiadau mawr, yn gynaliadwy mwyach. Nid yw'r gyfundrefn ffioedd bresennol yn mynd i'r afael â'r newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaeth rheoli datblygu ei ddarparu ar lefel leol, a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth o'r fath.

24. Yn 2020, gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Arup i wneud gwaith ymchwil ar y teitl 'Cost Darparu Gwasanaeth Rheoli Datblygu yng Nghymru'. Roedd y gwaith ymchwil yn seiliedig ar waith modelu a data manwl a chafodd ei oruchwylio gan weithgor a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, ACLlau, CLlLC a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI). Gwnaeth Arup hefyd ymgysylltu â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW), sef y grŵp sy'n cynrychioli uwch-swyddogion cynllunio ACLlau ledled Cymru. Prif amcan y gwaith ymchwil oedd llunio diffiniad eang o adennill costau llawn yng nghyd-destun darparu gwasanaeth rheoli datblygu yng Nghymru, a modelu adennill costau llawn ar gyfer amrywiaeth o senarios a mathau o geisiadau. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r gwaith ymchwil hwn ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol ac mae'n cynnwys y dystiolaeth ar gyfer llawer o'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn.

- Ymchwil i mewn i gost darparu gwasanaeth Rheoli Datblygu yng Nghymru (Gorffennaf 2021) – Ymchwil i mewn i gost darparu gwasanaeth Rheoli Datblygu yng Nghymru | LLYW.CYMRU

## Ein cynigion

### Symud tuag at Adennill Costau Llawn ar gyfer Ceisiadau Cynllunio

25. Mae adroddiad Arup yn nodi ffioedd targed er mwyn adennill costau llawn ar gyfer amrywiaeth o gategorïau ffioedd. Mae 'Senario 1' yr adroddiad yn nodi'r cynnydd canrannol i ffioedd a fyddai'n ofynnol er mwyn adennill costau llawn ar gyfer pob math o gais a, thrwy hynny, ddod â'r croesgymhorthdal rhwng gwahanol fathau o geisiadau i ben. I grynhoi, daw'r adroddiad i'r casgliad bod angen cynyddu ffioedd ar gyfer bron pob un o'r 56 o gategorïau ffioedd presennol er mwyn adennill costau llawn.

26. Ar y cyfan, mae'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn fwy amlwg mewn perthynas â mân geisiadau. Er enghraifft, daeth adroddiad Arup i'r casgliad y byddai angen i geisiadau deiliaid tai gynyddu o ffi sefydlog o £190 i ffi o £475 (cynnydd canrannol o 150%) er mwyn adennill costau llawn, sy'n debyg i gost cael cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu. Yn achos ceisiadau llawn am fwy na 25 o anheddau (gweler paragraffau x i x), mae'r model yn awgrymu y byddai angen cynyddu'r ffi 25%. Mae'r cynnydd i ffioedd a fyddai'n ofynnol er mwyn adennill costau llawn ar gyfer pob categori ffioedd yn amrywio o 25% i 225%. Ar ben hynny, gwnaeth y gwaith ymchwil hefyd ystyried cynnydd posibl i gyfraddau ffioedd amrywiadwy/uchafswm cyfraddau ffioedd ar gyfer y categorïau hynny lle mae'r darpariaethau hynny'n bodoli o fewn y rheoliadau. Cydnabyddir bod defnyddio

ffioedd amrywiadwy/uchafswm ffioedd yn rhoi mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y caiff ffioedd eu pennu.

27. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod cyfyngiadau data ar rai mathau o geisiadau ac, mewn rhai achosion, fod cryn dipyn o amrywiaeth. Er enghraifft, ni chafwyd digon o ddata ar fathau mwy o ddatblygiadau amhreswyl/defnydd cymysg. Er gwaethaf hyn, credwn fod adroddiad Arup yn cynnig sail gadarn ar gyfer ein newidiadau arfaethedig i ffioedd ac roedd pawb dan sylw o blaid ei gasgliadau ar y cyfan. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud rhagdybiaethau ac addasiadau lle roeddem o'r farn bod hynny'n angenrheidiol, a chaiff y rhain eu hesbonio yn y papur ymgynghori hwn.

28. Mae'r model ffioedd yn adroddiad Arup yn seiliedig ar y rheoliadau ffioedd a oedd ar waith cyn y cynnydd a wnaed i'r ffioedd yn 2020. Yn seiliedig ar hyn, mae adroddiad Arup yn nodi'r hyn a fyddai'n cynrychioli adennill costau llawn yn 2020 yn seiliedig ar reoliadau 2015. Er mwyn pennu beth fyddai adennill costau llawn yn 2024, gwnaethom ddiweddaru data ffi sefydlog, ffi amrywiadwy ac uchafswm ffi arfaethedig Senario 1 fel a ganlyn:

- diweddaru lefelau ffioedd 2015 i lefelau ffioedd 2020 (yn ogystal â chwyddiant o 23%), gan ffurfio ein ‘sefyllfa sylfaenol 2024’ newydd – yn cynrychioli y cynnydd lleiaf gofynnol yn y ffi sy’n seiliedig ar chwyddiant yn unig (heb gynnwys argymhellion ARUP)
- diweddaru ffi sefydlog, ffi amrywiadwy ac uchafswm ffi arfaethedig Senario 1 yn unol â chwyddiant (23%) er mwyn creu ffi darged newydd a chyfredol ar gyfer adennill costau llawn.
- Cymharu'r ddwy lefel ffioedd er mwyn canfod pa gynnydd canrannol mewn ffioedd fyddai'n ofynnol er mwyn adennill costau llawn.

29. Gan ystyried y cynnydd mewn ffioedd yn unol â chwyddiant yn 2020 (y llinell sylfaen), mae'r ‘bwlch’ o ran adennill costau llawn bellach yn llai mewn llawer o achosion, ond mae angen cynyddu ffioedd rhwng 3% a 225% ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau o hyd er mwyn cyrraedd y nod o adennill costau llawn. Er enghraifft, y cynnydd targed yn y ffi am geisiadau deiliaid tai yw £585, sy'n cynrychioli cynnydd mewn ffioedd o 107% uwchlaw lefel ffioedd 2020 wedi’u haddasu. Ar gyfer ceisiadau preswyl llawn/amlinellol am ddatblygiadau mwy na 1.2ha a 25 o anheddau yn eu tro, byddai'r cynnydd gofynnol yn y ffi yn llawer llai, sef 3%.

30. Ar gyfer y categorïau hynny sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad Arup, ond lle nad oedd digon o ddata ar gael i bennu ffi gadarn er mwyn adennill costau llawn (paragraff 27), rydym wedi cymhwyso'r isafswm cynnydd canrannol a argymhellir gan Arup, sef 25%, ac yna wedi cynyddu'r ffi hon 23% yn unol â chwyddiant. Ystyrir bod hwn yn ddull cymesur a rhesymol. O ystyried bod y rhain yn fathau mwy o faint a mwy cymhleth o geisiadau ar y cyfan, nid ystyrir ei bod yn briodol cynyddu ffioedd yn unol â chwyddiant ar gyfer y categorïau ffioedd hyn yn unig, oherwydd yr adnoddau posibl sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau.

31. Rydym wedi modelu pob un o'r categorïau ffioedd a ystyriwyd gan Arup ac wedi ystyried y canfyddiadau'n ofalus. Rydym yn cydnabod y byddai pennu categorïau ffioedd ar y lefel adennill costau llawn a dargedir o'r cychwyn cyntaf yn golygu codiad

sylweddol ar gyfer llawer o gategorïau, a allai arwain at effeithiau andwyol ar y rhai sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio, yn enwedig mewn perthynas â mathau o ddatblygiadau bach megis ceisiadau deiliaid tai.

32. Er mwyn lliniaru'r cynnydd sy'n ofynnol, rydym yn cynnig rhoi hyn ar waith yn raddol a rhoi'r rhan fwyaf o gategorïau ffioedd ar 'Lwybr Adennill Costau Llawn'. Rydym wedi ystyried yn ofalus beth fyddai'r cynnydd cychwynnol mwyaf priodol yn y ffi a pha mor hir y dylai'r Llwybr Adennill Costau Llawn fod. Mae hyn yn golygu y bydd y lefelau ffioedd ar gyfer y categorïau hynny nad ydynt ar y lefel adennill costau llawn a dargedir ar hyn o bryd yn cael eu cynyddu 10% arall i ddechrau *(neu £100, pa un bynnag yw'r uchaf)* uwchlaw llinell sylfaen 2024.

33. Yn dilyn y cynnydd cychwynnol hwn mewn ffioedd, caiff ffioedd eu cynyddu ymhellach bob blwyddyn hyd at 10% y flwyddyn *(neu £100, pa un bynnag yw'r mwyaf)* yn ogystal â chwyddiant blynyddol, nes i'r targed adennill costau llawn gael ei gyrraedd. Pan gaiff y targed adennill costau llawn ei gyrraedd, bydd cynnydd blynyddol yn gysylltiedig â chwyddiant yn unig. Mae adran 38-43 o'r papur hwn yn esbonio ein dull arfaethedig o ddiweddaru ffioedd bob blwyddyn mewn mwy o fanylder.

34. **Mae ein dadansoddiad yn dangos y bydd ffioedd ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o geisiadau *(gan gynnwys ffioedd sefydlog, ffioedd amrywiadwy ac uchafswm ffioedd)* yn cyrraedd lefel adennill costau llawn o fewn tair blynedd, ac y bydd y mathau o geisiadau sy'n weddill yn cymryd tua phum mlynedd.** Credwn fod hwn yn ddull priodol a phwyllog, gyda chynnydd bach a graddol mewn ffioedd, gan symud tuag at ein hamcan o adennill costau llawn. Mae'n taro'r cydbwysedd cywir, gan sicrhau y bydd ymgeiswyr yn cynllunio ar gyfer y costau hyn ac yn gallu eu hamsugno yn y dyfodol, gan roi rhyddhad ariannol ar unwaith i ACLlau sy'n wynebu anawsterau. Mae Atodiad B yn nodi enghreifftiau o'r llwybr adennill costau llawn ar gyfer detholiad o fathau cyffredin o geisiadau a'r amserlenni ar gyfer cyflawni hyn.

35. Ar gyfer y categorïau ffioedd cyfyngedig hynny na chawsant eu hystyried gan astudiaeth Arup, megis mwyngloddio ac ymweliadau â safleoedd tirlenwi, y dull arfaethedig yw pennu'r ffioedd ar y llinell sylfaen (23% uwchlaw lefelau ffioedd 2020) . Wedyn, bydd lefel y ffioedd yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant.

36. Mewn perthynas â ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais, nid yw'r rhain wedi cynyddu ers iddynt gael eu cyflwyno yn 2016. Pan gafodd ffioedd eu diweddaru yn 2020, y gred bryd hynny oedd na fyddai'n briodol cynyddu ffioedd am fod angen amser i wreiddio'r system newydd ac y gallai cynyddu ffioedd atal ymgeiswyr rhag defnyddio'r gwasanaeth. Mae ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais bellach wedi bod ar waith ers wyth mlynedd. Er mwyn cydnabod yr adnoddau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau hyn, cynigir cynyddu ffioedd tua 32% (yn unol â chwyddiant ers 2016). Wedyn, bydd lefel y ffioedd yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant.

37. **Mae'r newidiadau arfaethedig cyntaf i ffioedd wedi'u nodi yn Atodiad A.** Mae'r rhestr ffioedd newydd yn nodi'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd ym mhob categori yn y rheoliadau ffioedd. Mae'r rhestrau'n gwahaniaethu rhwng y categorïau

sydd ar y llwybr adennill costau llawn a'r categorïau y cynigir eu cynyddu yn unol â chwyddiant yn unig. Ar gyfartaledd (cymedr), bydd ffioedd ym mhob categori'n cynyddu tua 50% o'u cymharu â lefelau cyfredol. Ond mae ffigurau eithriadol yn dylanwadu ar y cyfartaledd hwn, gyda rhai ffioedd yn gweld prin 3% o gynnydd ac eraill yn cynyddu 200%. Mae'r cynnydd canrannol uwch yn digwydd fel arfer i'r ffioedd sydd ar hyn o bryd o gwmpas £100 neu lai. Canolrif y cynnydd ym mhob categori yw 32% uwchlaw lefelau 2020.

| | |
|---|---|
| **C1** | Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i newid ffioedd ceisiadau cynllunio o ddull codi ar sail canran i ddull adennill costau llawn?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C2** | Ydych chi'n cytuno bod y 'Llwybr Adennill Costau Llawn', sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o geisiadau'n adennill costau llawn mewn tair i bum mlynedd, yn ddull priodol?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C3** | Ydych chi'n cytuno y dylai'r categorïau ffioedd hynny na chawsant eu hystyried gan astudiaeth Arup gael eu cynyddu i linell sylfaen 2024 yn unig a chodi'n unol â chwyddiant bob blwyddyn?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C4** | Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i gynyddu ffioedd am Wasanaethau Cyn Gwneud Cais i linell sylfaen 2024, gan ystyried chwyddiant yn unig?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |

**Cynyddu a Mynegeio a Chyhoeddi Ffioedd Cenedlaethol yn Flynyddol**

38. Mae'r papur ymgynghori hwn wedi esbonio nad yw ffioedd cynllunio wedi cynyddu yn unol â chwyddiant a bod ffioedd wedi cael eu cynyddu'n afreolaidd (bob pum mlynedd yn fras). Nid yw'r dull hwn yn gynaliadwy mwyach, gan fod ACLlau dan bwysau cyson.

39. Mae argymhelliad 18-9 yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, "Cyfraith Cynllunio yng Nghymru", yn cynnig, ar yr amod na fydd ffioedd yn mynd yn uwch na chost cyflawni'r swyddogaeth, y dylai ffioedd gael eu cyhoeddi yn hytrach na'u rhagnodi mewn rheoliadau. Gellir gweld yr adroddiad drwy ddilyn y dolenni isod. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y dylai unrhyw raddfa ffioedd arfaethedig gael cyhoeddusrwydd priodol cyn cael ei chyhoeddi'n ffurfiol. Yn ein hymateb, roeddem yn cytuno ag egwyddor y dull hwn ac mae'r ymgynghoriad yn nodi ein cynigion ynghylch y ffordd rydym yn dymuno diweddaru cynnydd mewn ffioedd a rhoi cyhoeddusrwydd i hynny yn y dyfodol. Yn ychwanegol at ein cynigion ar gyfer adennill costau llawn, er mwyn cefnogi mwy o gynaliadwyedd ariannol ac osgoi diweddariadau afreolaidd ad hoc, rydym felly'n cynnig cyflwyno addasiad blynyddol i ffioedd cynllunio yn unol â chwyddiant.

- Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Gwefan y prosiect – Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Comisiwn y Gyfraith

- Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru – ymateb-manwl-llywodraeth-cymru-i-adroddiad-comisiwn-y-gyfraith-ar-gyfraith-cynllunio-yng-nghymru-tabl-tachwedd-2020.pdf

40. Yn dilyn y cynnydd cychwynnol yn y ffioedd, rydym yn cynnig cynyddu ffioedd bob blwyddyn, ar 1 Ebrill, gan ddefnyddio Mynegai Prisiau Defnyddwyr Banc Lloegr o'r mis Medi blaenorol. Os bydd datchwyddiant, bydd y ffioedd yn aros yr un fath ac ni fyddant yn cael eu haddasu tuag i lawr.

41. Fel y nodwyd yn flaenorol, ar gyfer y ceisiadau hynny ar y llwybr adennill costau llawn, cynigir cap o 10% (neu £100, pa un bynnag sydd uchaf) yn ogystal â chwyddiant ar bob cynnydd blynyddol mewn ffioedd, nes i'r targed adennill costau llawn gael ei gyrraedd. Yn dilyn hyn, bydd cynnydd blynyddol mewn ffioedd yn gysylltiedig â chwyddiant yn unig.

42. Yn dilyn y cynnydd cychwynnol mewn ffioedd, y rhagwelwn y bydd yn dod i rym yn ystod haf 2025, caiff rhestr ffioedd wedi'i diweddaru eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, o leiaf fis cyn 1 Ebrill bob blwyddyn. Byddai cynyddu ffioedd fwy nag unwaith mewn unrhyw flwyddyn ariannol yn achosi ansicrwydd i ymgeiswyr, ac felly bwriedir i'r cynnydd blynyddol cyntaf mewn ffioedd ar ôl y diweddariad cychwynnol hwn ddigwydd ar 1 Ebrill 2027. Caiff ACLlau a rhanddeiliaid allweddol eraill eu hysbysu o leiaf dri mis cyn i unrhyw gynnydd mewn ffioedd gael ei gyhoeddi, er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer trefniadau hysbysu a chyhoeddi ACLlau. Bydd copi caled o'r rhestr ffioedd wedi'i diweddaru ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gais.

43. Rhaid i gynnydd blynyddol mewn ffioedd gael ei wneud o fewn y paramedrau a nodir yn y rheoliadau, fel y'u diwygiwyd. Mae hyn yn golygu y byddai angen cynnal ymgynghoriad penodol a gwneud newidiadau i is-ddeddfwriaeth cyn gwneud unrhyw newidiadau i gategorïau ffioedd, neu'r dull o ddiweddaru ffioedd, yn y dyfodol. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio ein polisi ar ffioedd a chaiff hyn ei gyhoeddi ar ein gwefan pan ddaw'r rheoliadau ffioedd newydd i rym.

| | |
|---|---|
| **C5** | Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i ffioedd cynllunio gael eu haddasu'n flynyddol yn unol â chwyddiant?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C6** | Ydych chi'n cytuno mai Mynegai Prisiau Defnyddwyr Banc Lloegr yw'r mesur mynegai mwyaf priodol i'w ddefnyddio?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C7** | Ydych chi'n cytuno bod cyhoeddi ffioedd dri mis cyn i unrhyw gynnydd mewn ffioedd ddod i rym yn rhoi digon o amser ar gyfer trefniadau hysbysu a chyhoeddi ACLlau?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |

## Newidiadau arfaethedig i'r categorïau ffioedd presennol

### Newid trothwyon ffioedd newidiol ar gyfer datblygiadau preswyl

44. Er mwyn sicrhau eu datblygiad cynaliadwy, ac i fodloni gofynion a safonau, mae angen gwybodaeth helaeth ar geisiadau cynllunio. Ers creu’r rheoliadau gwreiddiol ar ffioedd, bu mwy o bwyslais ar ddyluniad a chreu lle, hyfywedd ac ymarferoldeb cyflawni, seilwaith a gofynion amgylcheddol a draenio. Caiff eu rhain eu sbarduno bellach ar drothwyon is.

45. Mae Adroddiad ARUP (tudalen 21) yn argymell gostwng y trothwyon ffioedd newidiol ar gyfer datblygiadau preswyl. Ar gyfer ceisiadau amlinellol, dylid gostwng y trothwy o 2.5 hectar i 1.2 hectar ac ar gyfer ceisiadau llawn, o 50 o unedau i 25 o unedau. Mae’r newid hwn yn cydnabod eu cymhlethdod a’r adnoddau sydd eu hangen i brosesu ceisiadau ar y lefel is hon.

46. Rydym yn cynnig newid yr holl reoliadau ar ffioedd yn unol â hynny a chaiff yr un newidiadau i drothwyon eu gwneud i geisiadau newid defnydd os mai defnydd preswyl yw’r defnydd a gynigir. Byddai hynny’n sicrhau cysondeb yn y rheoliadau.

| | |
|---|---|
| **C8** | Ydych chi’n cytuno â’n cynigion i ostwng y trothwyon ffïoedd newidiol ar gyfer ceisiadau cynllunio amlinellol, llawn a newid defnydd ar gyfer datblygiadau preswyl?<br><br>**Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |

### Ceisiadau Deiliaid Tai

47. Nid oes angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau deiliaid tai oherwydd bodolaeth Hawliau Datblygu a Ganiateir. Mae hyn yn cynnwys y gallu i wneud rhestr helaeth o waith, gan gynnwys datblygu estyniadau, addasu atigau, heulfannau, tai allan, siediau, systemau ynni adnewyddadwy a gwaith i erddi. Ar ben hynny, os bydd ansicrwydd, gall deiliad tŷ wneud cais am dystysgrif cyfreithlondeb. Mae hyn yn llai drud na chais cynllunio, a bydd cael tystysgrif o'r fath yn cadarnhau bod y datblygiad yn ddiogel rhag camau gorfodi. Felly, dim ond ar gyfer cyfran gyfyngedig o ddatblygiadau deiliaid tai y mae angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio, a dim ond y cynigion hynny sy'n fwy tebygol o gael effaith andwyol ar amwynder rhai eraill.

48. Ar gyfer estyniadau ac addasiadau eraill i gartrefi a nodir ym mharagraff 6 o Ran 2 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Ffioedd, rydym yn cynnig y dylid cynyddu ffioedd ceisiadau deiliaid tai i lefelau adennill costau llawn. Er mwyn cyrraedd lefelau adennill costau llawn, y ffi darged yw £585. I gyflawni hyn, y cynnydd cychwynnol i'r ffi fydd £383 *(£230 yw'r ffi bresennol)*, gan godi i £494 ym Mlwyddyn 2, cyn cynyddu i'r ffi darged o £585 ym Mlwyddyn 3 (gweler Atodiad B). At ei gilydd, credwn fod y cynnydd graddol arfaethedig yn gymesur ac na fyddai'n atal cynigion datblygu nac yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddatblygu heb ei awdurdodi. Mae'r ffi yn cynrychioli cyfran fach o gostau datblygu nodweddiadol ac mae'n debyg i daliadau proffesiynol eraill sydd eu hangen ar gyfer datblygu.

49. Mae paragraff 7 o Ran 2 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Ffioedd yn ymdrin â datblygiadau deiliaid tai yng nghwrtil y cartref gan gynnwys meysydd parcio, ffyrdd gwasanaeth a materion yn ymwneud â mynediad. Gwnaeth astudiaeth Arup ystyried y paragraff hwn ynghyd â pharagraff 6. Fodd bynnag, ni chredwn ei bod yn gymesur codi'r un ffi am y ddau fath o gais deiliad tŷ. Er enghraifft, ni chredwn ei bod yn briodol codi'r un ffi am estyniad deulawr i gartref â chais am wal neu ffens yn ymyl priffordd. Yn ein barn ni, nid yw hyn yn adlewyrchu'r adnoddau sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar y ceisiadau hyn, a gallai arwain at effeithiau negyddol drwy atal ymgeiswyr rhag cyflwyno ceisiadau, a thrwy hynny arwain at fwy o ddatblygiadau amhriodol a'r angen am gamau gorfodi.

50. Er ein bod yn cynnig defnyddio'r llwybr adennill costau llawn ar gyfer mathau 'paragraff 6' o geisiadau deiliaid tai (a esbonnir ym mharagraff 48), rydym yn cynnig ffi lawer is o £85 ar gyfer ceisiadau deiliaid tai a gwmpesir gan 'baragraff 7a' *(£230 yw'r ffi bresennol).* Bydd y categori ffioedd hwn yn cynyddu'n unol â chwyddiant yn unig bob blwyddyn.

51. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud mân newidiadau i eiriad y rheoliadau er mwyn gwella eglurder a sicrhau na fydd canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r newidiadau hyn. Gallai hyn gynnwys annog pobl yn anfwriadol i godi mwy o ystafelloedd gardd cyfanheddol y byddai'r ffi is yn cael ei chodi amdanynt.

| | |
|---|---|
| **C9** | Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i gynyddu ffioedd gwneud cais deiliaid tai er mwyn gallu adennill costau?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C10** | Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i gyflwyno ffi is o £85 am y mathau hynny o geisiadau deiliaid tai y cyfeirir atynt yn Rhan 2 (Atodlen 1) Paragraff 7a?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C11** | Ydych chi'n credu y caiff deiliaid tai eu hannog i adeiladu ystafelloedd gardd y gellir byw ynddynt yn hytrach nag adeiladu estyniad i'w cartrefi oherwydd y ffi is?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |

**Ceisiadau Ôl-weithredol**

52. Os bydd rhywun wedi cwblhau datblygiad yn fwriadol neu'n anfwriadol heb gael y caniatâd cynllunio angenrheidiol yn gyntaf, bydd yn gallu cyflwyno cais cynllunio ôl-weithredol. Ar hyn o bryd, mae'r ffi am gais o'r fath yr un faint ag y byddai wedi bod pe bai'r cais wedi cael ei gyflwyno cyn i'r datblygiad ddigwydd. Fodd bynnag, gall ACLlau fynd i gostau ychwanegol mewn perthynas â'r mathau hyn o geisiadau, oherwydd, mewn llawer o achosion, mae'n debygol y byddant wedi dechrau ymchwilio i'r achos a amheuir o dor rheolaeth gynllunio ac ystyried yr angen am gamau gorfodi.

53. Os bydd ACLl yn cyflwyno hysbysiad gorfodi mewn perthynas â datblygiad heb ei awdurdodi, codir ffi os bydd yr hysbysiad yn destun apêl wedi hynny ar y sail y dylai caniatâd cynllunio fod wedi cael ei roi. Y ffi ar hyn o bryd yw dwywaith yr hyn a fyddai'n daladwy am geisiadau cynllunio cyfatebol. Rydym yn cynnig cysoni'r ffi am geisiadau ôl-weithredol â'r ffi a godir pan fydd apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi.

| | |
|---|---|
| **C12** | Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddyblu'r ffi am geisiadau cynllunio ôl-weithredol?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |

**Ceisiadau sy'n Ymwneud â Materion a Gadwyd yn Ôl**

54. Ar hyn o bryd, caiff y ffi am geisiadau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl ei chodi ar y gyfradd lawn nes bod y cyfanswm y mae'r ymgeisydd wedi'i dalu yn hafal i'r ffi a fyddai wedi cael ei thalu pe bai cymeradwyaeth am yr holl faterion a gadwyd yn ôl wedi cael ei cheisio ar unwaith ar gyfer y datblygiad cyfan. Gwnaeth adroddiad Arup ystyried adennill costau llawn ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl. Mae'r ffi arfaethedig wedi'i nodi yn Atodiad A ac mae'r llwybr adennill costau llawn wedi'i nodi yn Atodiad B.  O ran ceisiadau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl yn dilyn cymeradwyaeth amlinellol a'r ceisiadau hynny sy'n ymwneud ag amrywio a chyflawni amodau, rydym yn ceisio eich barn ynghylch a yw'r ffi sefydlog arfaethedig (Atodiad A) yn ddull priodol.

55. Mae'n bosibl y caiff llawer o geisiadau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl eu cyflwyno mewn perthynas â safleoedd datblygu mawr wrth i'r cynllun gael ei adeiladu. Rydym yn ceisio eich barn ynghylch a yw'r ffioedd a gynigir ar hyn o bryd yn adlewyrchiad teg o'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesu'r ceisiadau hyn, neu a oes angen dull gwahanol. Er enghraifft, a ddylid cael gwared ar y terfyn uchaf ar gyfer ffioedd o blaid codi am geisiadau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl fel pe bai pob un yn gais am ganiatâd cynllunio llawn.

| | |
|---|---|
| **C13** | Ydych chi'n credu bod ein ffioedd arfaethedig ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl yn adlewyrchiad priodol o'r adnoddau/costau sy'n gysylltiedig â phrosesu'r ceisiadau hyn? Os nad ydych, pa strwythur ffioedd y dylid ei ddefnyddio yn lle hynny?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch dystiolaeth.** |

**Ceisiadau Adnewyddu**

56.  Caiff caniatâd cynllunio ei roi yn amodol ar derfyn amser ar gyfer dechrau'r datblygiad (adran 91 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref).Mae'n bosibl ymestyn y terfyn amser (a elwir hefyd yn adnewyddu'r caniatâd) gan ddefnyddio cais o dan adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i ddatblygu tir heb gydymffurfio â'r amodau a oedd wedi'u hatodi'n flaenorol. Wrth ystyried cais o dan adran 73, bydd awdurdod cynllunio lleol wedi'i gyfyngu i ystyried yr amodau ar gyfer caniatâd cynllunio yn unig. Felly, er y bydd rhai ceisiadau o dan adran 73 yn gyfyngedig eu cwmpas, bydd cais i ymestyn y terfyn amser ar gyfer dechrau'r datblygiad fel arfer yn

golygu bod angen ailystyried yr ystyriaethau perthnasol a oedd yn y cais gwreiddiol, er mwyn sicrhau nad yw treigl amser wedi newid rhinweddau'r cynnig.

57. Mae'n bosibl y bydd lefel yr wybodaeth y bydd angen i swyddog cynllunio ei hystyried wrth ystyried y ceisiadau hyn yn sylweddol, yn enwedig mewn achosion lle y bu newid sylweddol yn y cyd-destun polisi cenedlaethol neu leol.

58. Gwnaeth adroddiad Arup edrych ar geisiadau am ddileu neu amrywio amod ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei roi, gan gynnwys ceisiadau adnewyddu. Mae'r ffi a gynigir er mwyn adennill costau llawn wedi'i nodi yn Atodiad A. Fydd bynnag, rydym yn ceisio eich barn ynghylch a yw'r ffi arfaethedig yn briodol ac yn adlewyrchu'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesau ceisiadau adnewyddu.

| | |
|---|---|
| **C14** | Ydych chi'n credu bod ein ffi arfaethedig ar gyfer Ceisiadau i Adnewyddu yn Atodiad A yn adlewyrchiad cadarn o'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesu'r ceisiadau hyn?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch dystiolaeth.** |
| **C15** | A fyddai'n fwy priodol i'r un ffi gael ei chodi am gais adnewyddu â'r cais gwreiddiol am ganiatâd cynllunio sy'n cael ei adnewyddu (naill ai'r ffi lawn neu ffi'r caniatâd amlinellol)?<br><br>**Byddai/Na fyddai/Ddim yn gwybod. Rhowch dystiolaeth** |

**Ffioedd ar gyfer ceisiadau lle nad oes tâl ar hyn o bryd**

59. Ni chodir ffioedd am rai mathau o geisiadau ar hyn o bryd. Ymhlith y rhain mae cydsyniadau adeiladau rhestredig, cydsyniad i wneud gwaith dymchwel perthnasol mewn ardal gadwraeth, a gwaith i goed a warchodir am eu bod mewn ardal gadwraeth neu a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed. Ni chodir ffioedd am y ceisiadau hyn, a hynny'n bennaf am na all perchnogion optio allan o'r dynodiadau hyn ac oherwydd y beichiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â nhw yn sgil cadwraeth a chynnal a chadw.  I ACLlau, bydd pob un o'r ceisiadau hyn yn arwain at gostau prosesu.  Yn aml, bydd angen rhoi cyhoeddusrwydd ychwanegol iddynt, a bydd angen iddynt gael eu hystyried gan arbenigwyr technegol, megis swyddogion treftadaeth a chadwraeth neu swyddogion coed. ACLlau sydd â chyfran fawr o'r ceisiadau hyn fydd yn teimlo'r baich cost hwn gryfaf.

60. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ddigon o ddata i wybod beth yw costau prosesu'r mathau hyn o geisiadau a phenderfynu arnynt. Os credwch fod ffi yn briodol, bydd angen tystiolaeth arnom o nifer y ceisiadau a brosesir, a'r adnoddau a'r costau sy'n gysylltiedig â'u prosesu a phenderfynu arnynt. Gellid pennu ffi i dalu'r gost lawn neu ffi benodedig fach i dalu costau gweinyddol, costau ymgynghori a chostau cyhoeddusrwydd ceisiadau yn unig.

| | |
|---|---|
| **C16** | Ydych chi'n credu y dylid codi ffi am geisiadau sy'n ymwneud â chaniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau gan gyflwyno data/tystiolaeth.** |

| | |
|---|---|
| **C17** | Ydych chi'n credu y dylid codi ffi am geisiadau sy'n ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau gan gyflwyno data/tystiolaeth.** |
| **C18** | A oes unrhyw fathau o geisiadau na chodir ffioedd amdanynt ar hyn o bryd lle y dylai ffi fod yn ofynnol?<br><br>**Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau gan gyflwyno data/tystiolaeth.** |

**Clustnodi incwm o ffioedd**

61. Diben ffioedd ceisiadau cynllunio yw galluogi ACLlau i gyflawni un o'u swyddogaethau statudol, sef prosesu ceisiadau cynllunio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw cyllidebau cynllunio wedi'u clustnodi ar hyn o bryd, sy'n golygu y gall ffioedd cynllunio gael eu defnyddio i wrthbwyso pwysau cyllidebol ehangach ar awdurdodau lleol. Gall hyn gyfyngu ar unrhyw fantais i gynyddu ffioedd cynllunio.

62. Er mwyn sicrhau y bydd yr incwm ychwanegol arfaethedig o ffioedd yn helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer adrannau cynllunio a chefnogi eu cydnerthedd yn uniongyrchol, mae awgrym wedi cael ei wneud y dylid clustnodi ffioedd cynllunio. Byddai hyn yn fodd i wneud gwelliannau uniongyrchol i'r ffordd y gwaith gwasanaethau eu darparu, ond nid yw'n tanseilio'r hyblygrwydd cyffredinol a roddir i ACLlau a'u trefniadau rheolaeth ariannol a'u cyfrifoldebau ehangach. Rydym yn ceisio eich barn ar brofiadau ACLlau a'r heriau sy'n gysylltiedig â chlustnodi incwm o ffioedd cynllunio. Yn dibynnu ar yr ymatebion a gyflwynir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn fodlon ystyried mai dim ond os ceir ymrwymiad gan bob ACLl ymlaen llaw y dylid dod â chynnydd mewn ffioedd i rym.

| | |
|---|---|
| **C19** | Ydych chi'n credu y dylai'r incwm ychwanegol a fydd yn deillio o'r cynnydd arfaethedig i ffioedd gael ei glustnodi ar gyfer gwariant o fewn adrannau cynllunio ACLlau?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C20** | Beth yw'r heriau/rhwystrau presennol sy'n gysylltiedig â chlustnodi ffioedd cynllunio mewn adrannau cynllunio?<br><br>**Esboniwch a rhowch eich rhesymau.** |
| **C21** | Er mwyn helpu ACLlau i glustnodi ffioedd cynllunio, ydych chi'n credu mai dim ond os cafwyd ymrwymiad ysgrifenedig gan ACLl i gynyddu ffioedd y dylai Llywodraeth Cymru wneud hynny?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |

## Codi Tâl am Apeliadau

63. Ar hyn o bryd, ni chodir tâl am apeliadau cynllunio na gorfodi yng Nghymru. Mae Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn gwneud gwaith ar ran Gweinidogion Cymru a chaiff y gost o tua £3m y flwyddyn ei thalu gan drethdalwyr

Cymru. Mae hyn yn groes i'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio, lle y bydd yr ymgeisydd yn talu ffi. Mae'n bwysig sicrhau adnoddau priodol ar gyfer y system gynllunio. Drwy PEDW, mae Gweinidogion Cymru yn cyflawni rôl hollbwysig wrth benderfynu ar geisiadau drwy apeliadau.

64. Mae gan apelyddion hawl i apelio, lle y caiff y rhinweddau cynllunio eu hystyried o'r newydd gan benderfynwr annibynnol. Credwn y dylai buddiolwyr posibl apêl lwyddiannus dalu cyfran resymol a chymesur o gostau o'r fath. O gymharu â hynny, mae codi ffioedd am apeliadau wedi bod yn arfer gyffredin yn y system llysoedd sifil ers blynyddoedd lawer.

65. Pan gaiff apêl ei chadarnhau, ni chredwn y dylai'r ffi gael ei had-dalu. Yn gyntaf, mae'n bosibl y gallai PEDW fel derbynnydd y ffi gael ei gyhuddo o duedd a fyddai'n tanseilio annibyniaeth yr apêl pe bai canfyddiad y byddai'r canlyniad yn fanteisiol neu'n anfanteisiol i'r corff sy'n penderfynu. Yn ail, mae system eisoes yn bodoli ar gyfer dyfarnu costau i unrhyw barti mewn apêl sydd wedi mynd i gostau ychwanegol oherwydd ymddygiad afresymol, y gallai apelyddion ei galw i rym dan amgylchiadau o'r fath.  Gallai hyn gynnwys ad-dalu'r ffi apelio os penderfynir bod y caniatâd cynllunio gwreiddiol wedi cael ei wrthod yn ddiangen, gan olygu bod angen apêl.

66. Ceir materion pwysig i'w cadw mewn cof wrth ystyried cyflwyno taliadau am apeliadau. Ymhlith yr ystyriaethau pwysig mae sicrhau nad yw lefel y ffi a godir yn rhwystro mynediad at gyfiawnder drwy anghymell apeliadau teilwng nac yn anghymell datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Credwn y gall cyflwyno taliadau am apeliadau helpu i feithrin ymddiriedaeth yn y system gynllunio ymhlith cymunedau ac ymgeiswyr/apelyddion.

**Cynnig ynghylch Ffioedd**

67. Byddai ffioedd ar gyfer apeliadau cynllunio yn ddatblygiad arloesol o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Yn y cyd-destun hwn, hoffem wahodd safbwyntiau mewn egwyddor ynghylch y ffordd y dylid pennu unrhyw ffi. Credwn fod tri phrif opsiwn ar gyfer pennu'r ffi:

- Canran o ffi'r cais gwreiddiol – gan gynnal cysylltiad rhwng y cais gwreiddiol a'r apêl a sicrhau y bydd y ffi apelio yn cynyddu yn unol ag unrhyw gynnydd mewn ffioedd gwneud cais.
- Ffi safonol a gaiff ei phennu yn ôl y math/categori o gais neu'r hierarchiaeth.
- Ffi ar gyfradd safonol ar gyfer pob math o apêl.

68. Y dull a ffefrir gennym fyddai canran o ffi'r cais gwreiddiol a fyddai, yn ein barn ni, yn cynnig rhywfaint o gysondeb i ymgeiswyr. Byddai'n sicrhau system sy'n deg, yn dryloyw ac yn sicrhau bod y ffi'n gymesur â'r datblygiad arfaethedig, ac yn gysylltiedig â'r ffi wreiddiol a'r adnoddau y mae'n debygol y byddai eu hangen i benderfynu ar yr apêl.

69. O ystyried lefel ffioedd ceisiadau cynllunio yng Nghymru a chost wirioneddol delio ag apeliadau cynllunio, cynigir y dylid pennu ffi apelio yn seiliedig ar 50% o ffi'r cais cynllunio gwreiddiol. Mae'r tabl isod yn dangos sut y byddai hyn yn edrych yn seiliedig ar ein strwythur ffioedd arfaethedig (Atodiad A).  Os bydd pethau'n parhau fel hyn, gallai ffioedd apeliadau cynllunio gynhyrchu tua £303,973 y flwyddyn, sef dim ond 10% o gostau darparu gwasanaeth apeliadau cynllunio yng Nghymru. Credwn fod 50% yn swm bach a rhesymol a fydd yn cyfrannu at adnoddau a

chydnerthedd ein gwasanaeth apeliadau, gan dderbyn y bydd y swm arfaethedig yn llawer llai na'r gost sy'n seiliedig â phrosesu llawer o fathau o geisiadau. Yn seiliedig ar y costau presennol, mae'r apeliadau lleiaf cymhleth y penderfynir arnynt drwy'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig, megis apeliadau deiliaid tai, yn costio tua £1,305 i Weinidogion Cymru. Yn achos apeliadau mwy cymhleth y penderfynir arnynt drwy wrandawiad neu ymchwiliad, mae'r costau'n dechrau ar tua £6,000 a gallant gyrraedd dros £50,000 yn yr achosion mwyaf cymhleth.

| **Math o Gais** | **Ffi Gwneud Cais** | **Ffi Apelio arfaethedig (yn seiliedig ar 50% o'r ffi gwneud cais)** |
|---|---|---|
| Deiliad tŷ | £383 | £192 |
| Cais llawn – Preswyl<br>(hyd at 25 o anheddau)<br><br>(mwy na 25 o anheddau) | <br>£667<br><br>£29,274 + £154 fesul annedd hyd at £400,761 | <br>£334<br><br>£14,637 - £203,380 |
| Cais llawn Amhreswyl<br><br><40sqm<br>40-75sqm<br>>75sqm | <br><br>£383<br>£667<br>£585-£406,761 | <br><br>£192<br>£334<br>£292-£203,380 |
| Cais amlinellol (safle sy'n fwy na 1.2 ha) | £14,637 a £154 fesul 0.1ha o'r safle hyd at £203,380 | £7,318 – £101,690 |
| Newid Defnydd | £667 | £334 |
| Amrywio / Dileu Amod | £383 | £192 |
| Hysbysebion | £248 neu £667 | £124 neu £333 |
| Hysbysu Ymlaen Llaw<br>(Amaethyddiaeth / Coedwigaeth / Dymchwel)<br>(Telathrebu) | <br>£223<br><br>£667 | <br>£112<br><br>£334 |

## Mathau o Apeliadau

70. Y mathau o geisiadau (gan nodi'r eithriadau a restrir isod) lle y credwn y dylai ffi fod yn daladwy am gyflwyno apêl yw:

- Apeliadau a wneir o dan adran 78 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref e.e. ceisiadau cynllunio llawn ac amlinellol, apeliadau yn erbyn amodau ac ati
- Apeliadau a wneir o dan adran 106B o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref e.e. i ddiddymu neu amrywio rhwymedigaeth gynllunio/cyfraniad/cytundeb cymydog da
  Cydsyniad hysbysebu
  Tystysgrif Datblygiad neu Ddefnydd Cyfreithlon

Credir bod yr uchod yn adlewyrchu'r mathau mwyaf cyffredin o apeliadau a gaiff eu prosesu gan PEDW. Ni chredwn y dylai ffi fod yn daladwy (yn amodol ar y safbwyntiau a geisir/y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn mewn perthynas ag esemptiadau yn adran 56-57) ar gyfer y mathau canlynol o geisiadau:

- Barnu'n annilys
- Ceisiadau sydd eisoes wedi'u heithrio rhag ffi cais cynllunio e.e. datblygiad a fyddai'n ddatblygiad a ganiateir, mynedfa ar gyfer pobl anabl, Cydsyniad Adeilad Rhestredig, Cydsyniad Ardal Gadwraeth, Cydsyniad Gwaith Coed
- Ceisiadau am 'Gostau Apêl'

71. Ac eithrio sail (a) apeliadau gorfodi lle mae'r ddarpariaeth i dalu ffi eisoes yn bodoli a lle y dylai barhau, ni chredwn ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol codi ffi am apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Gorfodi, oherwydd gallai hyn arwain at anghyfiawnder.

Apelio yn erbyn methiant i benderfynu

72. Er sicrhau cysondeb, rydyn ni'n cynnig hefyd cyflwyno ffïoedd ar gyfer apelio yn erbyn methiant i benderfynu ar gais cynllunio, hynny ar gyfradd o 50% o'r ffi gwreiddiol ar gyfer y mathau canlynol o geisiadau:

- Adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn methiant i roi hysbysiad o fewn y cyfnod a ragnodir ar gyfer penderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio.
- Rheoliad 15 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) yn erbyn methiant i roi hysbysiad o fewn y cyfnod a ragnodir ar gyfer penderfynu ar gais am gydsyniad penodol i arddangos hysbyseb,
- Adran 195 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 yn erbyn methiant i roi hysbysiad o fewn y cyfnod a ragnodir ar gyfer penderfynu ar gais am dystysgrif defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon.
- Adran 106B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn methiant i benderfynu a ddylai rhwymedigaeth gynllunio gael ei [chyflawni] [newid].

| | |
|---|---|
| **C22** | Ydych chi'n cytuno y dylai apelyddion dalu ffi i gyflwyno apêl?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C23** | Ydych chi'n cytuno bod y system 'gostau' yn cynnig dull addas o adennill costau, a all gynnwys y ffi apelio, yn dilyn ymddygiad afresymol gan unrhyw barti?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C24** | Ydych chi'n cytuno mai canran o ffi'r cais cynllunio yw'r ffordd orau o bennu ffioedd ar gyfer apeliadau cynllunio?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C25** | Ydych chi'n cytuno bod 50% o ffi'r cais cynllunio gwreiddiol yn dâl teg a chymesur ar gyfer apeliadau cynllunio? |

| | |
|---|---|
| | **Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C26** | Ydych chi'n cytuno â'r eithriadau arfaethedig i ffi Apêl Gynllunio? A oes unrhyw fathau eraill o apeliadau y gellid eu cynnwys fel eithriadau?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C27** | A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â ffioedd Apeliadau Cynllunio?<br><br>**Rhowch eich rhesymau.** |

## Mireinio'r rheoliadau ffioedd – ein cynigion ar gyfer y dyfodol

73. Mae gwaith blaenorol a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio wedi canfod bod y dull presennol o gyfrifo ffioedd yn rhy gymhleth a bod angen diwygio'r rheoliadau ffioedd presennol. Mae adroddiad Arup yn cynnwys argymhellion cychwynnol ar gyfer strwythuro categorïau ffioedd yn y dyfodol mewn ffordd symlach. Roedd cytundeb cyffredinol yn y grŵp a oedd yn rhan o astudiaeth Arup mai categorïau ffioedd symlach fyddai'r ffordd orau ymlaen yn y tymor hwy.

74. Mae adroddiad Arup yn cydnabod bod mireinio'r categorïau ffioedd presennol yn dasg gymhleth sy'n cynnwys llawer o wahaniaethau a rhyngweithio rhwng categorïau y bydd angen eu hystyried yn ofalus. Fodd bynnag, credwn fod canfyddiadau'r adroddiad yn fan cychwyn da ar gyfer ystyriaethau pellach. Ar sail hynny, rydym yn ceisio eich barn ar yr opsiynau canlynol ar gyfer rhestr taliadau symlach yn seiliedig ar ddefnydd terfynol y tir y mae'r cais a gyflwynir yn ymwneud ag ef. Mae 56 o gategorïau ffioedd ar hyn o bryd, ac mae'r ddau opsiwn yn symleiddio'r rheoliadau presennol yn sylweddol.

75. Ein bwriad ni, yn amodol ar gytundeb a blaenoriaethau Gweinidogion, yw caniatáu i'n cynigion presennol 'ymwreiddio' cyn ystyried diwygiadau i'r rheoliadau ffioedd yn y dyfodol. Bydd gwybodaeth a safbwyntiau a gesglir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn rhoi sylfaen dystiolaeth inni ar gyfer newidiadau yn y dyfodol. Bydd unrhyw newidiadau i'r rheoliadau ffioedd, gweithdrefnau a phrosesau rheoli datblygu yn destun ymgynghoriad pellach.

| **Opsiwn 1** – Atodlen Taliadau Symlach (Senario 2 Arup) | **Opsiwn 2** – Rhestr Taliadau Symlach o Lawer (Senario 3 Arup) |
|---|---|
| Materion a Gadwyd yn Ôl | Deiliaid Tai |
| Deiliaid Tai | Mân – Anheddau |
| Tai – Mân | Mân – Tir |
| Tai – Mawr | Mân – Adeiladau |
| Amaethyddiaeth – Mân | Mawr – Anheddau |
| Amaethyddiaeth – Mawr | Mawr – Tir |
| Diwydiannol | Mawr – Adeiladau |
| Arall – Adeiladau | Arall – Adeiladau |
| Arall – Sefydlog | Arall – Sefydlog |
| Arall – Tir | Arall – Tir |

| | |
|---|---|
| Esemptiadau | Esemptiadau |

| | |
|---|---|
| **C28** | Ydych chi'n cytuno y dylai categorïau ffioedd gael eu symleiddio yn y dyfodol?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C29** | Beth yw eich barn ar yr opsiynau a gynigir?<br><br>**Rhowch eich rhesymau.** |

## Paratoi asesiadau effaith rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

76. Er mwyn helpu i wneud diwygiadau i reoliadau ffioedd, bydd angen asesu goblygiadau ariannol ein cynigion a'u goblygiadau o ran adnoddau ac unrhyw effeithiau posibl ar amrywiaeth o randdeiliaid. Bydd ACLlau yn cael mwy o refeniw fel rhan o'r mesurau hyn, a rhagwelir y bydd cynyddu ffioedd yn cael effaith gadarnhaol. Ar y llaw arall, bydd yn rhaid i ymgeiswyr dalu mwy pan fyddant yn cyflwyno ceisiadau cynllunio. I fesur effaith ein cynigion, rhowch unrhyw wybodaeth, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, er mwyn helpu i baratoi asesiadau effaith perthnasol. Gweler paragraffau 106-107 am yr effeithiau ar y Gymraeg.

| | |
|---|---|
| **C30** | Beth yw'r ‘bwlch’ presennol mewn termau ariannol/canrannol rhwng y refeniw a ddaw i law drwy lefelau ffioedd presennol a chostau rhedeg y gwasanaeth rheoli datblygu yn ardal eich ACLl?<br><br>**Rhowch ddata.** |
| **C31** | Pa effaith, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, a gaiff ein cynigion ar yr incwm a ddaw i law mewn termau ariannol a chanrannol, a'r berthynas â chostau rhedeg gwasanaeth rheoli datblygu nawr ac yn y tair i bum mlynedd nesaf nes y caiff costau eu hadennill yn llawn?<br><br>**Rhowch ddata ac esboniwch eich rhesymau.** |
| **C32** | O ran ceisiadau deiliaid tai, beth yw'r costau presennol sy'n gysylltiedig â chais “nodweddiadol” gan ddeiliad tŷ o gymharu ag incwm o ffioedd (gan gynnwys amser swyddogion, amser gweinyddol (cofrestru, dilysu, cyfathrebu), hysbysiadau statudol ac ati)?<br><br>Rhowch ddata. |
| **C33** | Ar gyfer ymgeiswyr sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio, ydych chi'n credu y bydd ein cynigion yn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C34** | Ar gyfer ymgeiswyr sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio, beth yw eich barn gyffredinol ar effeithiau ein cynigion, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol?<br><br>**Rhowch eich rhesymau.** |

# Atodiad A – Rhestr Ffioedd Arfaethedig

Diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 2015 a'r ffi daladwy arfaethedig:

- Mae (FCR) yn dynodi categorïau ffioedd y cyfeiriwyd atynt yn astudiaeth Arup atynt ac a roddwyd ar y Llwybr Adennill Costau Llawn
- Mae (FCR*) yn dynodi categorïau ffioedd a gafodd eu cynnwys yn astudiaeth Arup ond na chafwyd data digonol ar eu cyfer. Rhagdybiaethau Llywodraeth Cymru ynghylch targed FCR arfaethedig (gweler paragraff 30)
- Mae (*) yn dynodi ffioedd categorïau na chawsant eu cynnwys yn astudiaeth Arup ac sydd wedi cael eu cynyddu yn unol â chwyddiant yn unig (gweler paragraff 35 a 36)
- Noder y caiff y ffioedd eu talgrynnu pan gânt eu cyhoeddi.

| Categori Ffioedd / Rheoliad o fewn Rheoliadau 2015 | Ffi daladwy arfaethedig |
|---|---|
| *10. Ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau tybiedig* | |
| 4(a) lle y byddai cais wedi cael ei wneud i'r awdurdod perthnasol, dwywaith swm y ffi a fyddai wedi bod yn daladwy mewn cysylltiad â'r cais | Dwywaith swm y ffi a fyddai wedi cael ei thalu *(FCR)* |
| *11. Ffioedd am geisiadau am dystysgrifau defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon* | |
| 11(3)(a). Yn achos cais o dan adran 191(1)(a) neu (b) (neu o dan y ddau baragraff). | Y swm fyddai'n daladwy ar gyfer y defnydd a bennir yn y cais (FCR) |
| 11(3)(b). Cais a wnaed o dan adran 191(1)(c) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | **£667** *(FCR)* |
| 11(3)(c) Yn achos cais o dan adran 192(1)(a) neu (b) (neu o dan y ddau baragraff). | Hanner y swm fyddai'n daladwy ar gyfer y defnydd a bennir yn y cais (FCR) |
| 11(9) Pan wneir cais gan neu ar ran cyngor cymuned, y ffi sy'n daladwy yw hanner y swm a fyddai, fel arall, yn daladwy | Hanner y swm a fyddai, fel arall, yn daladwy *(FCR)* |
| *13. Ffioedd am geisiadau penodol o dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir* | |
| 13(1)(a). Pan wneir cais i awdurdod cynllunio lleol am iddo benderfynu a fydd cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod yn ofynnol mewn perthynas â datblygiad o dan Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, rhaid talu ffi i'r awdurdod am geisiadau o dan Ran 6 (adeiladau a gweithrediadau amaethyddol), ceisiadau o dan Ran 7 (adeiladau a gweithrediadau coedwigaeth) a cheisiadau o dan Ran 11 (dymchwel adeiladau). | **£223** *(FCR)* |
| 13(1)(b). Pan wneir cais i awdurdod cynllunio lleol am iddo benderfynu a fydd cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod yn ofynnol mewn perthynas â datblygiad o dan Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, rhaid talu ffi i'r awdurdod am geisiadau o dan Ran 24 (cyfathrebiadau). | **£667** *(FCR)* |

| | |
|---|---|
| *14. Ffioedd mewn cysylltiad â monitro safleoedd mwyngloddio a thirlenwi* | |
| 14(4). Pan fo'r cyfan neu ran o'r safle yn weithredol. | ***£493 fesul ymweliad (yn ddarostyngedig i uchafswm o 8 ymweliad bob 12 mis)** |
| 14(5). Pan fo'r safle yn anweithredol. | ***£166 fesul ymweliad (yn ddarostyngedig i un ymweliad bob 12 mis)** |
| *15. Ffioedd am geisiadau a wneir o dan amod cynllunio* | |
| 15(1)(a). Pan fo cais wedi ei wneud i awdurdod cynllunio lleol o dan Erthygl 23 o'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu, a phan fo'r cais yn ymwneud â chaniatâd ar gyfer datblygiad sy'n dod o fewn categori 6 neu 7 a bennir yn y tabl a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 1. | **£123** *(FCR)* |
| 15(1)(b). Pan fo cais wedi ei wneud i awdurdod cynllunio lleol o dan Erthygl 23 o'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu mewn unrhyw achos ond y rhai a bennir o dan baragraff 15(1)(a). | **£242** *(FCR)* |
| *16. Ffioedd am geisiadau am newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio* | |
| 16(1)(a). Ceisiadau a wneir o dan adran 96A(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 os yw'r cais yn gais deiliad tŷ. | **£123** *(FCR)* |
| 16(1)(b). Ceisiadau a wneir o dan adran 96A(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a bod y cais yn unrhyw gais heblaw am gais deiliad tŷ. | **£242** *(FCR)* |
| *16A. Ffioedd am ddiwygiadau ar ôl cyflwyno, i geisiadau am ddatblygiad mawr* | |
| 16A (3). Pan fo diwygiad i gais dilys ar gyfer datblygiad mawr yn cael ei gyflwyno i awdurdod cynllunio lleol yn unol ag Erthygl 22(1A) o'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu, rhaid talu ffi. | ***£283.50** |
| *Ffioedd am geisiadau am dystysgrifau datblygiad arall priodol* | |
| 16B (2) Ffioedd am geisiadau am dystysgrifau datblygiad arall priodol | ***£283.50** |

**Atodlen 1**

Ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a cheisiadau tybiedig am ganiatâd cynllunio neu am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl

**Rhan 1: Ffioedd taladwy o dan reoliad 3 neu reoliad 10**

| Categori Ffioedd / Rheoliad o fewn Rheoliadau 2015 | Ffi daladwy arfaethedig |
|---|---|
| Rhif paragraff o Atodlen 1 Rhan 1 | |

| | |
|---|---|
| 2. Pan fo cais neu gais tybiedig wedi ei wneud neu y tybir iddo gael ei wneud, gan neu ar ran cyngor cymuned. | 50% o'r ffi wreiddiol |
| 3(1). Pan fo cais neu gais tybiedig wedi ei wneud neu y tybir iddo gael ei wneud, gan neu ar ran clwb, cymdeithas neu gorff arall (gan gynnwys unrhyw bersonau sy’n gweinyddu ymddiriedolaeth), nas sefydlwyd ac nac yw’n cael ei gynnal er mwyn gwneud elw, ac amcanion y clwb, y gymdeithas neu’r corff hwnnw yw darparu cyfleusterau ar gyfer chwaraeon neu hamdden. | **£475**<br>*(FCR)* |
| 4. Cais am gymeradwyaeth ar gyfer un neu ragor o faterion a gadwyd yn ôl.<br><br>***Noder: Mae'r ymgynghoriad yn ceisio eich barn ym mharagraffau 54-55)*** | **£592**<br>*(FCR)* |
| 5. Ceisiadau a wneir o dan adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<br><br>***Noder: Mae'r ymgynghoriad yn ceisio eich barn ym mharagraffau 56-58)*** | **£383**<br>*(FCR)* |
| 5A(3)(a). Ceisiadau a wneir o dan adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar ôl gwrthod newid ansylweddol, neu pan nad yw awdurdod cynllunio lleol wedi rhoi hysbysiad o'i benderfyniad mewn cysylltiad â chais cynharach gyda'r amser a bennir yn erthygl 28A(7) o’r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu, ar gyfer ceisiadau deiliaid tai. | Y ffi a nodir yw'r gwahaniaeth rhwng cost cais a.73 a chais a.96A ar gyfer ceisiadau deiliaid tai.<br><br>*(FCR)* |
| 5A(3)(b). Ceisiadau a wneir o dan adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar ôl gwrthod newid ansylweddol, neu pan nad yw awdurdod cynllunio lleol wedi rhoi hysbysiad o'i benderfyniad mewn cysylltiad â chais cynharach gyda'r amser a bennir yn erthygl 28A(7) o’r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu, ar gyfer unrhyw achos arall. | Y ffi a nodir yw'r gwahaniaeth rhwng cost cais a.73 a chais a.96A mewn unrhyw achos arall.<br><br>*(FCR)* |
| 6(a). Cais sy'n ymwneud â datblygiad a gyflawnwyd heb ganiatâd cynllunio.<br><br>***Noder: Mae'r ymgynghoriad yn ceisio eich barn ym mharagraffau 52-53)*** | **Dwbl y ffi a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 1**<br><br>*(FCR)* |
| 6(b). Cais sy'n ymwneud ag unrhyw achos arall. | ***£283.50** |
| 7. Ceisiadau am ganiatâd cynllunio i estyn terfyn amser dan adrannau 91 neu 92 o Ddeddf Cynllunio | ***£383** |

| | |
|---|---|
| Gwlad a Thref 1990, pan fo caniatâd cynllunio eisoes wedi ei roi ar gyfer datblygiad nad yw wedi ei ddechrau eto.<br><br>***Noder: Mae'r ymgynghoriad yn ceisio eich barn ym mharagraffau 56-58)*** | (FCR) |
| 13(2)(a). Ceisiadau am ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad sydd o fewn mwy nag un o'r categorïau, pan nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hectar. | **£667 fesul 0.1ha**<br>*(FCR)* |
| 13(2)(b). Ceisiadau am ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad sydd o fewn mwy nag un o'r categorïau, pan fo arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hectar. | **Ffi sylfaenol o £14,637**<br><br>**£154 fesul 0.1ha dros 2.5ha**<br><br>**Uchafswm ffi o £203,380**<br><br>*(FCR)* |

**Rhan 2 – Graddfa Ffioedd mewn Cysylltiad â Cheisiadau a Wnaed neu y Tybir iddynt gael eu Gwneud:**

| **Categori Ffioedd / Rheoliad o fewn Rheoliadau 2015** | **Ffi daladwy arfaethedig** |
|---|---|
| **Categori'r Datblygiad** | |
| ***I. Gweithrediadau*** | |
| 1. Codi tai annedd (ac eithrio datblygiad o fewn categori 6 isod). | (a) pan fo'r cais yn gais am ganiatâd cynllunio amlinellol ac –<br><br>(i) nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 1.2 hectar, **£667** am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle,<br><br>(ii) bod arwynebedd y safle yn fwy na 1.2 hectar, **£14,637** a **£154** ychwanegol am bob 0.1 hectar dros 2.5 hectar, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o **£203,380**;<br><br>(b) mewn achosion eraill –<br><br>(i) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad yn 25 neu'n llai, **£667** am bob tŷ annedd,<br><br>(ii) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad yn fwy na 25, **£29,274** a **£154** ychwanegol am bob tŷ annedd dros 25 o dai annedd, yn |

| | |
|---|---|
| | ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o **£406,761**<br><br>*(FCR)* |
| 2. Codi adeiladau (ac eithrio adeiladau yng nghategorïau 1, 3, 4, 5 neu 7) | (a) pan fo'r cais yn gais am ganiatâd cynllunio amlinellol ac –<br><br>(i) nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hectar, **£667** am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle,<br><br>(ii) bod arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hectar, **£14,637** a **£154** ychwanegol am bob 0.1 hectar dros 2.5 hectar, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o **£203,380**;<br><br>(b) mewn achosion eraill –<br><br>(i) pan nad oes arwynebedd llawr i gael ei greu gan y datblygiad, neu pan nad yw'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 40 metr sgwâr, **£383**<br><br>(ii) pan fo'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 40 metr sgwâr ond nid yn fwy na 75 metr sgwâr, **£667**,<br><br>(iii) pan fo'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 75 metr sgwâr, **£585** am bob 75 metr sgwâr (neu ran o hynny), yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o **£406,761**.<br><br>*(FCR)* |
| 3. Codi, ar dir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddiaeth, adeiladau i'w defnyddio at ddibenion amaethyddol (ac eithrio adeiladau yng nghategori 4). | (a) pan fo'r cais yn gais am ganiatâd cynllunio amlinellol ac—<br><br>(i) nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hectar, **£667** am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle,<br><br>(ii) bod arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hectar, **£14,637** a **£154** ychwanegol am bob 0.1 hectar dros 2.5 hectar, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o **£203,385**.<br><br>(b) mewn achosion eraill—<br><br>(i) pan nad oes arwynebedd llawr i gael ei greu gan y datblygiad, neu |

| | |
|---|---|
| | pan nad yw'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 465 metr sgwâr, **£205**,<br><br>(ii) pan fo'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 465 metr sgwâr ond nid yn fwy na 540 metr sgwâr, **£667**,<br><br>(iii) pan fo'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 540 metr sgwâr, **£585** a **£585** ychwanegol am bob 75 metr sgwâr (neu ran o hynny) dros 540 metr sgwâr, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o **£406,761**.<br><br>*(FCR)* |
| 4. Codi tai gwydr ar dir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddiaeth. | (a) Pan nad yw'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 465 metr sgwâr, **£205**;<br>*(FCR)*<br><br>(b) pan fo'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad yn fwy na 465 metr sgwâr, **£3,313**.<br>*(FCR*)* |
| 5. Codi, addasu neu amnewid peiriannau neu beirianwaith. | (a) Pan nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 2.5 hectar, **£667** am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle;<br>*(FCR)*<br><br>(b) pan fo arwynebedd y safle yn fwy na 5 hectar, **£31,185** a **£197** ychwanegol am bob 0.1 hectar dros 5 hectar, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o **£406,761**. (FCR*) |
| 6. Ehangu neu wella tai annedd presennol, neu eu haddasu rywfodd arall.<br><br>***Noder: Mae'r ymgynghoriad yn ceisio eich barn ym mharagraffau 47-50)*** | (a) Pan fo'r cais yn ymwneud ag un tŷ annedd, **£383**; *(FCR)*<br><br>(b) pan fo'r cais yn ymwneud â 2 neu ragor o dai annedd, **£667**. *(FCR)* |
| 7. (a) cyflawni gweithrediadau (gan gynnwys codi adeilad) o fewn cwrtil tŷ annedd presennol, at ddibenion sy'n atodol i fwynhad o'r tŷ annedd fel y cyfryw, neu godi neu adeiladu llidiardau, ffensys, waliau neu ddulliau cau eraill ar hyd ffin cwrtil tŷ annedd presennol; neu<br><br>(b) adeiladu meysydd parcio, ffyrdd gwasanaethu a mynedfeydd eraill ar dir a ddefnyddir at ddibenion | ***£85** ym mhob achos<br><br>£383<br>*(FCR)* |

| | |
|---|---|
| menter sengl, pan fo angen y datblygiad at ddiben sy’n gysylltiedig â’r defnydd o dir presennol.<br><br>***Noder: Mae'r ymgynghoriad yn ceisio eich barn ym mharagraffau 47-50)*** | |
| 8. Cyflawni unrhyw weithrediadau sy’n gysylltiedig â drilio wrth chwilio am olew neu nwy naturiol. | (a) Pan nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 7.5 hectar, **£667** am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle;<br><br>(b) pan fo arwynebedd y safle yn fwy na 7.5 hectar, **£46,777** a **£197** ychwanegol am bob 0.1 hectar dros 7.5 hectar, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o **£406,761**.<br><br>*(FCR*)* |
| 9. Cyflawni unrhyw weithrediadau nad ydynt yn dod o fewn unrhyw un o'r categorïau uchod. | (a) Yn achos gweithrediadau ar gyfer cloddio a gweithio mwynau—<br><br>(i) pan nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 15 hectar, **£374** am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle;<br>*(FCR*)*<br><br>(ii) pan fo arwynebedd y safle yn fwy na 15 hectar, **£46,777** a **£197** ychwanegol am bob 0.1 hectar dros 15 hectar, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o **£108,470**;<br>*(FCR*)*<br><br>(b) mewn unrhyw achos arall, **£296** am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle, yn ddarostyngedig i uchafswm o **£406,761**.<br>*(FCR)* |
| ***I. Defnydd o dir*** | |
| 10. Newid y defnydd o adeilad i ddefnydd fel un neu ragor o dai annedd ar wahân | (a) Pan fo'r newid defnydd yn newid o ddefnydd blaenorol fel un tŷ annedd i ddefnydd fel dau neu ragor o dai annedd sengl—<br><br>(i) pan fo'r newid defnydd yn newid i ddefnydd fel 25 neu lai o dai annedd, **£667** am bob tŷ annedd ychwanegol,<br>*(FCR)*<br><br>(ii) pan fo'r newid defnydd yn newid i ddefnydd fel mwy na 25 o dai annedd, **£31,185** a **£197** ychwanegol am bob tŷ annedd dros 50 o dai annedd, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o **£406,761**;<br>*(FCR*)* |

| | |
|---|---|
| | (b) ym mhob achos arall—<br><br>(i) pan fo'r newid defnydd yn newid i ddefnydd fel 25 neu lai o dai annedd, **£585** am bob tŷ annedd,*(FCR*)*<br><br>(ii) pan fo'r newid defnydd yn newid i ddefnydd fel mwy na 25 o dai annedd, **£31,185** a **£197** ychwanegol am bob tŷ annedd dros 25 o dai annedd, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o **£406,761**.<br>*(FCR*)* |
| 11. Defnydd o dir ar gyfer gwaredu sbwriel neu ddeunyddiau gwastraff neu ar gyfer gollwng deunydd sy'n weddill ar ôl echdynnu mwynau o dir, neu ar gyfer storio mwynau mewn man agored. | (a) Pan nad yw arwynebedd y safle yn fwy na 15 hectar, **£374** am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle;<br><br>(b) pan fo arwynebedd y safle yn fwy na 15 hectar, **£46,777** a **£197** ychwanegol am bob 0.1 hectar dros 15 hectar, yn ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf o **£108,470**<br><br>*(FCR*)* |
| 12. Gwneud newid sylweddol yn y defnydd o adeilad neu dir (ac eithrio newid defnydd sylweddol sy'n dod o fewn unrhyw un o'r categorïau uchod). | **£667**<br>*(FCR)* |

**Atodlen 2 – Ffioedd am Hysbysebion – Graddfa Ffioedd mewn Cysylltiad â Cheisiadau am Ganiatâd i Arddangos Hysbysebion**

| **Categori Ffioedd / Rheoliad o fewn Rheoliadau 2015** | **Ffi daladwy arfaethedig** |
|---|---|
| **Categori'r datblygiad** | |
| 1. Hysbysebion a arddangosir ar fangre busnes, ar flaengwrt mangre busnes neu ar dir arall o fewn cwrtil mangre busnes, sydd, yn gyfan gwbl, yn cyfeirio at bob un neu unrhyw rai o'r materion canlynol—<br>(a) natur y busnes neu'r gweithgaredd arall a gynhelir yn y fangre;<br>(b) y nwyddau a werthir neu'r gwasanaethau a ddarperir yn y fangre; neu<br>(c) enw a chymwysterau'r person sy'n cynnal y cyfryw fusnes neu weithgaredd neu'n cyflenwi'r cyfryw nwyddau neu wasanaethau. | **£248**<br>*(FCR)* |
| 2. Hysbysebion at y diben o gyfeirio aelodau o'r cyhoedd at fangre busnes, neu dynnu sylw rywfodd arall at fodolaeth mangre busnes, sydd yng | **£197**<br>*(FCR*)* |

| | |
|---|---|
| nghyffiniau'r safle yr arddangosir yr hysbyseb arno, ond nid yn weladwy o'r safle hwnnw. | |
| 3. Pob hysbyseb arall. | **£667**<br>*(FCR)* |

**Ffioedd mewn Cysylltiad ag Archiadau am Wasanaethau Cyn Ymgeisio**

| Categori Ffioedd / Rheoliad o fewn Rheoliadau 2016 | Ffi daladwy arfaethedig |
|---|---|
| **Rhan 1 – (Ffioedd taladwy o dan Reoliad 2A)** | |
| Ceisiadau Deiliaid Tai | ***£33.20** |
| | |
| **Rhan 2 – (Ffioedd mewn Cysylltiad ag Archiadau am Wasanaethau Cyn Ymgeisio)** | |
| 1. Codi tai annedd | (a) Pan fo<br><br>(i) nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad arfaethedig yn un i naw, ***£332,**<br>(ii) nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad arfaethedig yn 10 i 24, ***£796.80,**<br>(iii) nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad arfaethedig yn fwy na 24, ***£1,328;**<br><br>(b) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w creu yn anhysbys ac<br><br>(i) arwynebedd y safle arfaethedig yn ddim mwy na 0.49 hectar, ***£332,**<br>(ii) arwynebedd y safle arfaethedig yn 0.5 i 0.99 hectar,* **£796.80,**<br>(iii) arwynebedd y safle arfaethedig yn fwy na 0.99 hectar,* **£1,328.** |
| 2. Codi adeiladau (ac eithrio tai annedd) | (a) Pan fo<br><br>(i) arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad arfaethedig yn ddim mwy na 999 metr sgwâr, ***£332,**<br>(ii) arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad arfaethedig yn 1,000 i 1,999 metr sgwâr, ***£796.80,**<br>(iii) arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad arfaethedig yn fwy na 1,999 metr sgwâr, ***£1,328;** |

| | |
|---|---|
| | (b) pan nad yw'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad arfaethedig yn hysbys ac—<br><br>(i) arwynebedd y safle arfaethedig yn ddim mwy na 0.49 hectar, ***£332,**<br>(ii) arwynebedd y safle arfaethedig yn 0.5 i 0.99 hectar,* **£796.80,**<br>(iii) arwynebedd y safle arfaethedig yn fwy na 0.99 hectar,* **£1,328.** |
| 3. Gwneud newid sylweddol yn y defnydd o adeilad neu dir | (a) Pan fo'r archiad am wasanaethau cyn ymgeisio yn ymwneud â chais arfaethedig am ganiatâd i wneud newid sylweddol yn y defnydd o adeilad ac<br><br>(i) nad yw arwynebedd llawr gros y datblygiad arfaethedig yn fwy na 999 metr sgwâr, ***£332,**<br>(ii) pan fo arwynebedd llawr gros y datblygiad arfaethedig yn 1,000 i 1,999 metr sgwâr, ***£796.80,**<br>(iii) pan fo arwynebedd llawr gros y datblygiad arfaethedig yn fwy na 1,999 metr sgwâr, ***£1,328,**<br><br>(b) pan fo'r archiad am wasanaethau cyn ymgeisio yn ymwneud â chais arfaethedig am ganiatâd i wneud newid sylweddol yn y defnydd o dir ac<br><br>(i) nad yw arwynebedd y safle arfaethedig yn fwy na 0.49 hectar, ***£332,**<br>(ii) arwynebedd y safle yn 0.5 i 0.99 hectar, ***£796.80,**<br>(iii) arwynebedd y safle yn fwy na 0.99 hectar, ***£1,328.** |
| 4. Cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithfeydd mwynau | ***£796.80** |
| 5. Datblygiad gwastraff | ***£796.80** |

**Esemptiadau a Chonsesiynau**

| **Disgrifiad** | **Newidiadau a gynigir** |
|---|---|
| **Esemptiadau:** | |
| Cydsyniadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth | Bydd yr esemptiad yn parhau.<br><br>***Mae'r ymgynghoriad yn ceisio eich barn ym mharagraffau 59-60*** |

| | |
|---|---|
| Os bydd y cynnig yn ymwneud â gwaith y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn rhinwedd cyfarwyddyd Erthygl 4 yn unig | Bydd yr esemptiad yn parhau.<br><br>***Mae'r ymgynghoriad yn ceisio eich barn ym mharagraffau 59-60*** |
| Gwaith i Goeden a gwmpesir gan Orchymyn Cadw Coed neu dynnu gwrych mewn Ardal Gadwraeth | Bydd yr esemptiad yn parhau.<br><br>***Mae'r ymgynghoriad yn ceisio eich barn ym mharagraffau 59-60*** |
| Newidiadau/estyniadau i dŷ annedd er budd person anabl | Bydd yr esemptiad yn parhau. Ni chynigir newidiadau. |
| Cais dim ond at ddibenion cynnig mynediad i bersonau anabl i adeilad neu fangre y mae gan y cyhoedd hawl mynediad iddynt, neu o fewn adeilad neu fangre o'r fath. | Bydd yr esemptiad yn parhau. Ni chynigir newidiadau. |
| Os bydd y cais yn un am dystysgrif datblygu cyfreithlon, ar gyfer defnydd presennol, lle y byddai cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer yr un datblygiad wedi'i eithrio rhag yr angen i dalu ffi gynllunio o dan unrhyw reoliad ffioedd cynllunio arall. | Bydd yr esemptiad yn parhau. Ni chynigir newidiadau. |
| Os bydd y cais yn un am gydsyniad i arddangos hysbyseb ar ôl i gais cynharach gael ei dynnu yn ôl (cyn i hysbysiad o benderfyniad gael ei roi) neu os caiff y cais ei wneud ar ôl i gydsyniad i arddangos hysbyseb gael ei wrthod, ac os caiff y cais ei wneud ar ran yr un person. | Bydd yr esemptiad yn parhau. Ni chynigir newidiadau. |
| Os bydd y cais yn un am gydsyniad i arddangos hysbyseb sy'n deillio o gyfarwyddyd o dan Reoliad 7 o Reoliadau Rheoli Hysbysebion 1992 sy'n datgymhwyso cydsyniad tybiedig o dan Reoliad 6 ar gyfer yr hysbyseb dan sylw. | Bydd yr esemptiad yn parhau. Ni chynigir newidiadau. |
| Os bydd y cais yn un i gynigion amgen ar gyfer yr un safle gan yr un ymgeisydd gael budd o'r hawl datblygu a ganiateir yn Atodlen 2, Rhan 3, Dosbarth E o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. | Bydd yr esemptiad yn parhau. Ni chynigir newidiadau. |
| Ceisiadau diwygiedig yn dilyn tynnu'n ôl, gwrthod neu fethu â phenderfynu sy'n gymwys o dan delerau Rheoliad 8 (y ‘tro am ddim’) | Bydd yr esemptiad yn parhau. Ni chynigir newidiadau. |
| **Consesiynau:** | |
| Ceisiadau a gyflwynir ar ran Cynghorau Tref a Chymuned | 50% o'r ffi arferol am y cais dan sylw. Ni chynigir newidiadau i'r ffordd o weithredu. |
| Ceisiadau a wneir ar ran clwb, cymdeithas neu gorff arall (gan gynnwys unrhyw bersonau sy’n gweinyddu | ***£475.** |

| | |
|---|---|
| ymddiriedolaeth), nas sefydlwyd ac nac yw'n cael ei gynnal er mwyn gwneud elw, ac amcanion y clwb, y gymdeithas neu'r corff hwnnw yw darparu cyfleusterau ar gyfer chwaraeon neu hamdden gan gynnwys gwneud newid defnydd sylweddol i'r tir fel maes chwarae neu gyflawni gweithrediadau at ddibenion sy'n atodol i ddefnyddio tir fel maes chwarae (heblaw codi adeilad) | *(FCR)* |

## Atodiad B – Llwybr Adennill Costau Llawn Dangosol (Enghreifftiau)

Noder: Mae Blwyddyn 2 ymlaen yn seiliedig ar ein codiad 10% arfaethedig yn ogystal â chwyddiant blynyddol cyfartalog o 2.73% dros 10 mlynedd. Yn ymarferol, gall y cynnydd gwirioneddol fod fymryn yn wahanol i'r cyfraddau a ddangosir gan y byddant yn seiliedig ar chwyddiant gwirioneddol (gweler paragraff 40 o'r papur ymgynghori)

### Enghraifft 1: Cais Amlinellol (dim mwy na 1.2 ha)

| Ffi 2020 | Ffi 2020 *(yn ogystal â chwyddiant)* 'Llinell Sylfaen 2024' | Ffi Darged Amrywiadwy Adennill Costau Llawn *(Ffi darged Arup yn ogystal â chwyddiant)* | Blwyddyn 1: **Cynnydd Arfaethedig i'r Ffi yn 2024** | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £460 | £567 | £1,171 | **£667** | **£785** | **£907** | **£1031** | **£1163** | £1194 |

### Enghraifft 2: Cais Amlinellol (mwy na 1.2 ha)

| Ffi 2020 **'Elfen Ffi Sefydlog'** | Ffi 2020 *(yn ogystal â chwyddiant)* 'Llinell Sylfaen 2024' | Ffi Darged Adennill Costau Llawn *(Ffi darged Arup yn ogystal â chwyddiant)* | Blwyddyn 1: **Cynnydd Arfaethedig i'r Ffi yn 2024** | Ffi 2020 **'Elfen Uchaf swm Ffi'** | Ffi 2020 *(yn ogystal â chwyddiant)* 'Llinell Sylfaen 2024' | Ffi Darged Adennill Costau Llawn *(Ffi darged Arup yn ogystal â chwyddiant)* | Blwyddyn 1: **Cynnydd Arfaethedig i'r Ffi yn 2024** | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £11,500 | £14,175 | £14,637 | **£14,637** | £150,000 | £184,891 | £221,500 | £203,380 | 221,500 |

### Enghraifft 3: Ceisiadau Deiliaid Tai

| Ffi 2020 | Ffi 2020 *(yn ogystal â chwyddiant)* 'Llinell Sylfaen 2024' | Ffi Darged Amrywiadwy Adennill Costau Llawn *(Ffi darged Arup yn ogystal â chwyddiant)* | Blwyddyn 1: **Cynnydd Arfaethedig i'r Ffi yn 2024** | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £230 | £283 | £585 | **£383** | **£494** | **£585** |

### Enghraifft 4: Cais Llawn (hyd at a chan gynnwys 25 o unedau)

| Ffi 2020 | Ffi 2020 *(yn ogystal â chwyddiant)* 'Llinell Sylfaen 2024' | Ffi Darged Amrywiadwy Adennill Costau Llawn *(Ffi darged Arup yn ogystal â chwyddiant)* | Blwyddyn 1: **Cynnydd Arfaethedig i'r Ffi yn 2024** | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £460 | £567 | £1171 | **£667** | **£785** | **£907** | **£1172** |

**Enghraifft 5: Cais Llawn (mwy na 25 o anheddau)**

| Ffi 2020<br>**'Elfen Ffi Sefydlog'** | Ffi 2020<br>*(yn ogystal â chwyddiant)*<br>'Llinell Sylfaen 2024' | Ffi Darged Adennill Costau Llawn<br>*(Ffi darged Arup yn ogystal â chwyddiant)* | Blwyddyn 1:<br>Cynnydd Arfaethedig i'r Ffi yn 2024 | Ffi 2020<br>**'Elfen Uchafswm Ffi'** | Ffi 2020<br>*(yn ogystal â chwyddiant)*<br>'Llinell Sylfaen 2024' | Ffi Darged Adennill Costau Llawn<br>*(Ffi darged Arup yn ogystal â chwyddiant)* | Blwyddyn 1:<br>**Cynnydd Arfaethedig i'r Ffi yn 2024** | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £23,000 | £28,350 | £29,274 | **£29,274** | £300,000 | £369,782 | £442,969 | £406,761 | £442,969 |

**Enghraifft 6: Materion a Gadwyd yn Ôl**

| Ffi 2020 | Ffi 2020<br>*(yn ogystal â chwyddiant)*<br>'Llinell Sylfaen 2024' | Ffi Darged Amrywiadwy Adennill Costau Llawn<br>*(Ffi darged Arup yn ogystal â chwyddiant)* | Blwyddyn 1:<br>**Cynnydd Arfaethedig i'r Ffi yn 2024** |
|---|---|---|---|
| £460 | £567 | £592 | £592 |

# RHAN 2: Perfformiad, Cydnerthedd a Gallu Awdurdodau Cynllunio Lleol

## Mesur a monitro perfformiad awdurdodau cynllunio lleol

### Trosolwg

77. Mae perfformiad y gwasanaeth cynllunio yn flaenoriaeth bwysig i bob rhanddeiliad. Mae gan bawb ffyrdd gwahanol o farnu perfformiad ond, yn y pen draw, mae pob defnyddiwr gwasanaeth yn disgwyl gweld system sy'n brydlon, yn effeithlon ac yn sicrhau datblygiadau o safon uchel y mae eu hangen ar bob un ohonom. Mae'n rhesymol i ymgeiswyr sy'n talu ffioedd ddisgwyl gwasanaeth gwell os byddant yn talu mwy amdano ac os bydd ACLlau yn gallu sicrhau adnoddau priodol ar eu cyfer eu hunain.

78. Ar hyn o bryd, y Fframwaith Perfformiad Cynllunio yw'r system gyffredinol ar gyfer adrodd ar berfformiad gwasanaethau cynllunio. Mae ein Fframwaith presennol yn cynnwys tair elfen:

- **Dangosyddion y Fframwaith Perfformiad –** y rhestr sylfaenol o ddangosyddion a thargedau y cytunir arnynt gydag ACLlau ac a gaiff eu diweddaru'n flynyddol.
- **Adroddiadau Perfformiad Blynyddol** – cânt eu paratoi gan bob ACLl a fydd yn myfyrio ar ei berfformiad dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn dangosyddion a thargedau'r Fframwaith Perfformiad, gan roi cyd-destun lleol ar gyfer perfformiad (perfformiad cadarnhaol a lle mae angen gwella) a nodi meysydd lle y ceir arferion gorau.
- **Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan** – caiff ei baratoi gan Lywodraeth Cymru. Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan yn ceisio rhoi trosolwg ar y ffordd y mae'r system yn gweithredu a nodi unrhyw angen am newidiadau deddfwriaethol neu weithredol yn seiliedig ar berfformiad y gwasanaeth cynllunio dros gyfnod o 12 mis. Mae'n ystyried perfformiad y system gynllunio yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys ACLlau, Llywodraeth Cymru ei hun, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ac ymgyngoreion statudol.

79. Mae'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio presennol yn seiliedig ar gyfres o 19 o ddangosyddion sy'n edrych ar wasanaethau llunio cynlluniau a rheoli datblygu, gan gynnwys targedau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd, ansawdd, ymgysylltu a gorfodi. Mae'n categoreiddio perfformiad ACLlau yn erbyn y targedau hyn mewn un o dri band perfformiad, sef “gwella”, “gweddol” a “da”. Cafodd y dangosyddion hyn eu llunio bron yn gyfan gwbl ar sail setiau data a oedd eisoes yn cael eu casglu a'u rhannu gan ACLlau, at ddibenion adroddiadau perfformiad ar reoli datblygu neu gynlluniau datblygu, a chytunwyd ar yr amseriad ar gyfer cyflwyno adroddiadau blynyddol yn flaenorol er mwyn cyd-fynd â hyn – er enghraifft, roedd yn ofynnol i Adroddiadau Perfformiad Blynyddol gael eu cyflwyno ar yr un pryd ag yr oedd yn ofynnol i ACLlau gyhoeddi Adroddiadau Monitro Blynyddol CDLl, am fod nifer o ddangosyddion y Fframwaith Perfformiad Cynllunio yn seiliedig ar fetrigau perfformiad a ystyrir yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol. Mae'r dangosyddion presennol i'w cael isod:

- Fframwaith Perfformiad Cynllunio: Dangosyddion a Thargedau – [y-fframwaith-perfformiad-cynllunio-disgrifiad-manwl-o-ddangosyddion-a-thargedau.pdf (llyw.cymru)]

80. Cafodd Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan ei gyhoeddi am y tro cyntaf yn 2015, a chafodd yr adroddiad diweddaraf ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019. Cafodd y gwaith o baratoi a chyhoeddi'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio ac Adroddiadau Perfformiad Blynyddol ei atal dros dro oherwydd y pandemig pan gafodd adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru ac ACLlau eu defnyddio at ddibenion eraill. Gwnaeth rhai ACLlau barhau i gyhoeddi Adroddiadau Perfformiad Blynyddol, ond mae'r darlun bellach yn anghyson ledled Cymru.

## Ein cynigion

### Ailfywiogi'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio

81. Bydd cynyddu ffioedd cynllunio yn arwain at adnoddau ychwanegol i wasanaethau cynllunio. Dylai hyn yn ei dro arwain at welliannau parhaus i berfformiad awdurdodau cynllunio lleol. Rydym yn cynnig ailfywiogi'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio ac yn credu bod y fframwaith yn rhoi ffocws ar gyfer asesu yn erbyn priodoleddau awdurdod cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda.

82. Ein gweledigaeth ar gyfer y Fframwaith Perfformiad Cynllunio yw ei fod yn cael ei werthfawrogi fel adnodd hanfodol a rhagweithiol ar gyfer monitro perfformiad a chydnerthedd gwasanaethau cynllunio ac yn cael ei gydnabod fel dull allweddol ar gyfer cyflawni, myfyrio a gwella, a rhannu arferion gorau. Rydym hefyd o'r farn y dylai'r fframwaith gael ei ddylunio mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn gymesur ac yn osgoi dyblygu â chyfundrefnau monitro eraill (lle bo modd).

83. Yn y dyfodol, credwn fod angen rhoi ffocws a blaenoriaeth o'r newydd i fonitro perfformiad o fewn ACLlau. Rhaid i unrhyw gynnydd mewn ffioedd er mwyn creu adnoddau o fewn ACLlau ddigwydd ar yr un pryd â chynnydd amlwg mewn perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt. Byddwn yn parhau i gynyddu ffioedd (yn unol â'r cynigion) ond, yn gyfnewid am hynny, gofynnwn am ymrwymiad i gyflwyno gwybodaeth reolaidd a chyfredol ar y ffurf a ragnodir.

84. Bydd ail-lansio'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio yn sicrhau y caiff problemau yn ymwneud â pherfformiad a chydnerthedd eu cofnodi ar lefel genedlaethol ac yn ein galluogi i roi cymorth yn gynnar a datblygu atebion mewn partneriaeth â rhanddeiliaid pan fo angen. Bydd hefyd yn cynnig fframwaith â sail gadarn i ACLlau ar gyfer datblygu a rhannu arferion gorau.

85. Rydym yn cydnabod y bydd angen amser ac adnoddau ar ACLlau i addasu i'r fframwaith pan gaiff ei ailgyflwyno ac i unrhyw fesurau newydd. Rydym yn cynnig y dylai'r cylch nesaf o Adroddiadau Perfformiad Blynyddol gael ei gyflwyno ym mis Hydref 2026, ar gyfer y cyfnod adrodd o fis Ebrill 2025 tan fis Mawrth 2026. Ein bwriad yw y bydd yr ymatebion a ddaw i law fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i lunio cyfres ddiwygiedig o ddangosyddion a thargedau ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol.

| | |
|---|---|
| **C35** | Ydych chi'n cytuno y dylai'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio gael ei ailgyflwyno? |

| | |
|---|---|
| | **Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C36** | Ydych chi'n credu y dylai unrhyw gynnydd i ffioedd ceisiadau cynllunio yn y dyfodol fod yn gysylltiedig â pherfformiad yn benodol?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |

**Newidiadau i dargedau a dangosyddion**

86. Credwn fod y fframwaith presennol yn cynnwys dangosyddion a thargedau meintiol perthnasol a gwerthfawr a ddylai, at ei gilydd, gael eu cadw ac nid ydym yn cynnig gwyro'n sylweddol oddi wrth y fformat presennol. Caiff llawer o'r wybodaeth a gesglir gan yr Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu, sy'n ffurfio'r mwyafrif o setiau data'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio, ei chynnwys yn awtomatig mewn adroddiadau a gaiff eu paratoi gan systemau TGCh, gan leihau'r baich o ran adnoddau ar ACLlau.

| | |
|---|---|
| **C37** | A oes gennych unrhyw sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adroddiadau Perfformiad Blynyddol?<br><br>**Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C38** | Yn eich barn chi, beth yw'r dangosyddion allweddol y dylid eu defnyddio i fesur perfformiad awdurdodau?<br><br>**Esboniwch a rhowch eich rhesymau.** |
| **C39** | Beth yw eich barn ar y bandiau perfformiad presennol – Gwella (coch), Gweddol (melyn) a Da (gwyrdd)? Ydych chi'n credu y dylid eu newid?<br><br>**Os ydych, rhowch eich rhesymau.** |
| **C40** | A oes unrhyw fetrigau meintiol nad ydynt wedi'u cynnwys a ddylai gael eu cynnwys?<br><br>**Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod. Nodwch pa fetrigau meintiol ychwanegol y dylid eu cynnwys yn eich barn chi, ac esboniwch pam.** |
| **C41** | A oes unrhyw fetrigau ansoddol nad ydynt wedi'u cynnwys a ddylai gael eu cynnwys?<br><br>**Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod. Nodwch pa fetrigau ansoddol ychwanegol y dylid eu cynnwys yn eich barn chi, ac esboniwch pam.** |
| **C42** | Ydych chi'n credu mai'r targedau a'r dangosyddion presennol yw'r rhai cywir ar gyfer perfformiad y gwasanaeth rheoli datblygu?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C43** | Ydych chi'n credu mai'r targedau a'r dangosyddion presennol yw'r rhai cywir ar gyfer perfformiad y gwasanaeth cynllun datblygu?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |

**Cytundebau estyniad amser**

87. Gall cytundebau estyniad amser a Chytundebau Perfformiad Cynllunio gyflawni diben dilys er mwyn cefnogi trafodaethau adeiladol rhwng yr awdurdod cynllunio lleol ac ymgeisydd. Fodd bynnag, cânt hefyd eu defnyddio o bryd i'w gilydd mewn ffordd sy'n cuddio perfformiad gwael gan awdurdodau cynllunio lleol. Rydym yn cynnig y dylai perfformiad awdurdod cynllunio lleol o ran cyflymder gwneud penderfyniadau gael ei asesu'n bennaf yn ôl canran y ceisiadau y penderfynir arnynt o fewn y cyfnod penderfynu statudol, ac nid cyfnod estynedig y cytunwyd arno.

| | |
|---|---|
| **C44** | Ydych chi'n cytuno y dylai perfformiad awdurdodau cynllunio lleol o ran cyflymder gwneud penderfyniadau gael ei asesu yn ôl canran y ceisiadau y penderfynir arnynt o fewn y cyfnod penderfynu statudol, h.y. heb gynnwys estyniadau amser a Chytundebau Perfformiad Cynllunio?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |

**Mesurau Cydnerthedd – Ansoddol a Meintiol**

88. Rydym yn ceisio eich barn ynghylch sut y gall Adroddiad Perfformiad Blynyddol fesur a monitro cydnerthedd gwasanaethau cynllunio yn fwy digonol. O hyn ymlaen, credwn ei bod yn hanfodol bod pob parti yn deall effeithiau cynnydd mewn ffioedd ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Hefyd, mae angen deall pam mae problemau o ran perfformiad i'w cael mewn rhai meysydd, a ph'un ai problemau diwylliannol neu systematig yw'r rhain, neu broblemau a achosir gan faterion yn ymwneud ag adnoddau a gallu, yn ariannol ac o ran staffio.

89. Rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad i Adroddiad Perfformiad Blynyddol gynnwys y mesurau bras canlynol a gaiff eu mireinio drwy weithgor. Ni chynigir y bydd targedau'n gysylltiedig â'r mesurau hyn, ond byddant yn rhoi cipolwg hanfodol ar gydnerthedd gwasanaethau cynllunio ledled Cymru a ble y gall fod angen cymorth. Ceir cysylltiad annatod rhwng cydnerthedd a pherfformiad. Dim ond os bydd y dystiolaeth a'r data cyd-destunol pwysig hyn gennym y byddwn yn ystyried cynyddu ffioedd yn y dyfodol. Dylai Adroddiad Perfformiad Blynyddol gynnwys crynodeb cyd-destunol cyffredinol o 'gyflwr y gwasanaeth cynllunio' sy'n ymdrin â'r mesurau arfaethedig isod:

- Cyllidebau Gwasanaethau Cynllunio – cynnydd neu leihad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol/blynyddoedd blaenorol
- Cyfanswm blynyddol yr incwm a gafwyd o ffioedd – i ba raddau y mae incwm o ffioedd yn ariannu'r gwasanaeth rheoli datblygu, cynnydd/lleihad canrannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol/blynyddoedd blaenorol. Roedd hyn yn un o'r argymhellion yn adroddiad Arup.
- Canran yr incwm o ffioedd sy'n cael ei 'glustnodi' ar gyfer y gwasanaeth rheoli datblygu.
- Staff a Strwythurau (cyfanswm nifer y staff yn y gwasanaeth cynllunio) – cynnydd/lleihad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol/blynyddoedd blaenorol, gan gynnwys y rhaniad rhwng timau rheoli datblygu a thimau cynlluniau a meysydd eraill (lle bo hynny'n briodol).

- Argaeledd a bylchau sgiliau arbenigol – a oes gan yr ACLl y sgiliau perthnasol sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau cynllunio gan gynnwys ceisiadau arbenigol/prosiectau mawr?
- Swyddi gwag a recriwtio – nifer y swyddi gwag presennol gan gynnwys cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol a gwybodaeth am unrhyw ymgyrchoedd recriwtio a phroblemau a gododd.
- Graddedigion/Myfyrwyr/Prentisiaethau – Y defnydd o'r cynlluniau lefel mynediad hyn a'r niferoedd sy'n manteisio arnynt.
- Gwelliannau ac arferion gorau o ran ‘mentrau cydnerthedd’ y gellir adrodd arnynt a'u rhannu'n ehangach – e.e. trefniadau darparu gwasanaethau ar y cyd, trefniadau cydweithio, rhannu staff a sgiliau arbenigol

| | |
|---|---|
| **C45** | Ydych chi'n credu bod cyflwyno mesurau cydnerthedd mewn Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn ychwanegiad defnyddiol at adroddiadau perfformiad?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C65** | Ydych chi'n cytuno â'r mesurau bras a gynigir? Os nad ydych, beth yw'r rheswm pam a pha fesurau eraill y dylid eu cynnwys?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |

# Cynyddu adnoddau yn y system gynllunio – cefnogi cydnerthedd, gallu a galluogrwydd ACLlau

## Recriwtio a Chadw Sgiliau

### Cyffredinol

90. Er mwyn darparu gwasanaeth cynllunio yn y sector cyhoeddus sy'n effeithiol ac yn perfformio'n dda, mae angen sicrhau bod y gweithlu cynllunio wedi'i baratoi i allu bodloni'r gofynion a roddir arno, a hynny nawr ac yn y dyfodol. Mae llawer o bwysau cydgysylltiedig ar y system gynllunio yng Nghymru. Mae paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol, cymhlethdod cynyddol ceisiadau cynllunio gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â chyflenwi seilwaith ac ynni adnewyddadwy, pwysau ar adnoddau o fewn awdurdodai yn sgil cyni, a'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff i gyd yn effeithio ar y gallu a'r galluogrwydd i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Ni all un ateb syml ddatrys yr heriau hyn.

91. Er mwyn ein helpu i lunio strategaeth/pecyn o gymorth, hoffem glywed eich barn a'ch profiad o'r heriau penodol sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw gweithwyr cynllunio proffesiynol sydd â'r sgiliau a'r profiad cywir a'r ffyrdd gorau y gall Llywodraeth Cymru, drwy gydweithio ag awdurdodau lleol a chyrff proffesiynol, roi hwb i allu a galluogrwydd.

92. Ein bwriad yw dechrau ar ddarn pwysig o waith dros y misoedd nesaf a fydd yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu ar y cyd â'r RTPI er mwyn rhoi dealltwriaeth fanylach inni o faterion yn ymwneud â chydnerthedd, gallu a galluogrwydd ein gwasanaethau cynllunio.  Yn y cyfamser, byddem yn croesawu unrhyw ddata a

gwybodaeth yr hoffech eu cyfrannu, a hynny'n gyffredinol ac mewn perthynas â'r cynigion penodol a nodir isod.

| | |
|---|---|
| **C47** | Yn eich barn chi, beth yw'r bylchau sgiliau ac arbenigedd mwyaf o fewn awdurdodau cynllunio lleol a pha effaith y mae hyn yn ei chael ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu ar hyn o bryd?<br><br>**Rhowch dystiolaeth/enghreifftiau.** |
| **C48** | Yn eich barn chi, beth yw'r prif rwystrau sy'n wynebu ACLlau o ran recriwtio a chadw staff?<br><br>**Rhowch dystiolaeth/enghreifftiau.** |
| **C49** | A yw'r cyflogau a'r strwythurau gyrfa presennol yn ddigonol i gadw staff cynllunio?<br><br>**Ydynt/Nac ydynt/Ddim yn gwybod. Rhowch dystiolaeth/enghreifftiau.** |
| **C50** | A yw eich ACLl yn cynnig cyfleoedd i gynllunwyr ar ddechrau eu gyrfaoedd ar hyn o bryd? Ydych chi wedi cael llwyddiant o ran cadw staff?<br><br>**Rhowch dystiolaeth/enghreifftiau.** |
| **C51** | Yn ychwanegol at gynyddu ffioedd cynllunio, ym mha ffyrdd eraill y gallai Llywodraeth Cymru helpu i wella gallu a galluogrwydd o fewn adrannau cynllunio lleol a llwybrau i ymuno â'r proffesiwn?<br><br>**Rhowch enghreifftiau o arferion da neu fentrau sydd eisoes yn bodoli os oes modd.** |
| **C52** | A oes gennych unrhyw syniadau eraill er mwyn helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer y system gynllunio?<br><br>**Esboniwch sut y gallai'r cynnig helpu o ran adnoddau yn eich barn chi.** |

### Cynlluniau bwrsari a phrentisiaeth

93. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried opsiynau posibl ar gyfer rhoi cymorth ariannol er mwyn cynyddu'r cyflenwad o gynllunwyr. Mae hyn yn cynnwys cymorth i gyfleoedd wedi'u hariannu ar gyfer israddedigion/graddedigion, prentisiais a/neu fwrsarïau. Rydym yn ymwybodol o gynlluniau tebyg sydd ar waith yn Lloegr a'r Alban, a nodwn fod rhai ACLlau yng Nghymru wedi achub ar y cyfle i recriwtio staff o gynllun peilot “Llwybrau at Gynllunio” CLlLC.

94. Er mwyn cynnal cynlluniau prentisiaeth a bwrsari, mae angen rhwymedigaethau ariannol ac o ran adnoddau gan gyflogwyr, ar gyfer cyflogau, contractau sylfaenol (h.y. 3-5 mlynedd), cymorth mentora a phrofiad. Er mwyn inni archwilio dichonoldeb a hyfywedd y cynlluniau hyn, mae angen inni sicrhau yn gyntaf fod digon o alw yng Nghymru.  Ein barn gychwynnol yw mai cynlluniau bwrsari i raddedigion fydd y ffordd gyflymaf a mwyaf effeithiol o gynyddu'r cyflenwad o gynllunwyr yn y tymor byr.

95. Mae angen mwy o amser paratoi ar gyfer cynlluniau prentisiaeth (ar gyfer is-raddedigion a graddedigion) er mwyn datblygu cyrsiau achrededig addas ar y cyd â phrifysgolion a chyrff proffesiynol. Bydd hefyd angen i gynlluniau o'r fath roi sicrwydd ynghylch isafswm niferoedd carfannau er mwyn gwneud cyrsiau'n ariannol hyfyw. Hefyd, mae angen llawer mwy o ymrwymiad ariannol ac ymrwymiad o ran adnoddau gan gyflogwyr ar gyfer cynlluniau prentisiaeth.

96. Rydym yn ceisio eich barn ar y galw am gynlluniau prentisiaeth a bwrsari i is-raddedigion a graddedigion yng Nghymru, gan gynnwys asesiad o ble o fewn gwasanaethau cynllunio ACLlau, gan gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig, y credwch y dylid cyfeirio'r adnoddau hyn a ble y gallent gynnig y gwerth mwyaf.

| | |
|---|---|
| **C53** | A oes galw am gynlluniau bwrsari i israddedigion/graddedigion yng Nghymru? Os ydych yn ymateb ar ran ACLl, faint o unigolion y byddech yn dymuno eu cynnig a pha mor aml?<br><br>**Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C54** | A oes galw am gynlluniau prentisiaeth i israddedigion/graddedigion yng Nghymru? Os ydych yn ymateb ar ran ACLl, faint o brentisiaid y byddech yn dymuno eu cyflogi a pha mor aml?<br><br>**Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C55** | Yn eich barn chi, ble y dylai adnoddau staffio ychwanegol a sicrhawyd drwy gynlluniau bwrsari/prentisiaeth gael eu cyfeirio er mwyn cael yr effaith fwyaf? Er enghraifft, o fewn gwasanaethau cynllunio ACLlau a/neu ar gyfer cyflawni swyddogaethau cynllunio strategol ac arbenigol Cyd-bwyllgorau Corfforedig.<br><br>**Rhowch dystiolaeth ac esboniwch eich rhesymau.** |

## Gwella Cydnerthedd ac Adnoddau Cyd-bwyllgorau Corfforedig

97. Credwn yn gryf mai opsiynau cyflawni rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cynllunio a ddarperir gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig ddylai fod y prif ddull ar gyfer ymateb i'r heriau sylweddol o ran adnoddau a sgiliau nawr ac yn y dyfodol. Mae angen i bob un ohonom feddwl yn adeiladol am ffordd y gallwn weithio'n glyfrach ac yn fwy effeithiol â'r adnoddau a'r strwythurau proffesiynol ac ariannol sydd ar gael. Mae angen inni fod yn feiddgar a pheidio â chael ein cyfyngu gan drefniadau darparu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli.

### Darparu Gwasanaethau ar y Cyd a Hybiau Sgiliau Cynllunio

98. Credwn y dylai ACLlau/Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ystyried modelau darparu gwasanaethau ar y cyd. Maent eisoes yn enghreifftiau da o ddarparu gwasanaethau drwy gydweithio mewn perthynas â threfniadau cynllunio gwastraff a mwynau yng Nghymru. Credwn y gellid ehangu'r dull hwn i gynnwys disgyblaethau cynllunio arbenigol eraill lle mae sgiliau arbenigol yn ofynnol ac yn brin, megis bioamrywiaeth, treftadaeth adeiledig, a dylunio trefol, ac y gallai gael ei ddefnyddio o bosibl i gyfuno swyddi llai na chyfwerth ag amser llawn (FTE) sydd eisoes yn bodoli i greu timau mwy o swyddi FTE, gan wasanaethu nifer o bwyllgorau cynllunio. Mae hyn yn debygol o fod yn arbennig o fuddiol i ACLlau llai am ei fod yn lleihau costau,

gan wella cydnerthedd a chynnig mwy o gyfleoedd i staff gamu ymlaen mewn gyrfa, a helpu i recriwtio a chadw staff yn y gwasanaeth cynllunio yng Nghymru.

99. Ar ben hynny, credwn hefyd fod teilyngdod mewn archwilio'r potensial i sefydlu hybiau sgiliau cynllunio.  Gallai hybiau sgiliau cynllunio fod yn ffordd i ACLlau gael gafael ar staff medrus ar fyr rybudd er mwyn helpu i ymateb i amrywiaeth o bwysau. Gallai hyb adnoddau canolog/rhanbarthol alluogi ACLlau i asesu amrywiaeth o sgiliau arbennig a thechnegol yn gyflym ac yn haws er mwyn ategu a chefnogi eu staff. Gallai'r dull hybiau gyflawni amrywiaeth o rolau, gan gynnig hyblygrwydd i ddiwallu anghenion ACLlau neu Gyd-bwyllgorau Corfforedig a chyfle i gysoni ffyrdd o weithredu a rhannu gwybodaeth dechnegol. Credwn mai prif fanteision hyb fyddai ei fod yn gwneud y canlynol:

- Rhoi arbenigedd a chyngor technegol mewn meysydd sy'n newydd neu sy'n datblygu, megis ynni, bioamrywiaeth, prosiectau seilwaith mawr a newid hinsawdd
- Rhoi cymorth/cyngor technegol ar bwnc lle mae awdurdod yn brin o arbenigedd neu wedi'i golli, e.e. dylunio trefol, demograffeg, hyfywedd, treftadaeth
- Rhoi cymorth ac arbenigedd ychwanegol er mwyn prosesu ceisiadau mawr neu gymhleth
- Rhoi cymorth arbenigol ar gyfer paratoi CDLlau a CDSau
- Gwreiddio a rhannu arferion da, hyfforddiant a DPP
- Helpu i sicrhau staff ychwanegol pan fydd ACLlau yn wynebu prinder staff

100. Y dull a ffefrir gennym yw bod hybiau sgiliau'n cael eu cynnal gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Credwn y gallai'r dull hwn olygu un hyb canolog, neu nifer o hybiau, yn dibynnu ar y sgiliau. Hefyd, rydym wedi nodi ein cynigion ar gyfer ffioedd cynllunio uwch. Rydym hefyd yn credu y byddai'n ddichonadwy i gyfran o ffioedd cynllunio gael eu cyfeirio at hybiau sgiliau cynllunio.

101. Rydym yn ceisio eich barn ar rinweddau, heriau, dichonoldeb a chyflawnadwyedd sefydlu cydwasanaethau a hybiau cynllunio er mwyn darparu gwasanaethau cynllunio arbenigol.

| | |
|---|---|
| **C56** | Beth yw eich barn ar rinweddau a heriau sefydlu cydwasanaethau rhanbarthol/mwy na lleol?<br><br>**Rhowch dystiolaeth ac esboniwch eich rhesymau.** |
| **C57** | Ydych chi'n cytuno y dylai hybiau sgiliau cynllunio gael eu lleoli o fewn cyd-bwyllgorau corfforedig?<br><br>**Os nad ydych, rhowch eich rhesymau pam.** |
| **C58** | Yn eich barn chi, sut y gellid darparu adnoddau ar gyfer hyb(iau) sgiliau cynllunio gan ystyried gofynion llywodraethu, ariannol a staffio?<br><br>**Rhowch dystiolaeth ac esboniwch eich rhesymau.** |
| **C59** | Ydych chi'n cytuno y gallai hybiau sgiliau cynllunio gael eu hariannu drwy ddefnyddio cyfran o incwm ffioedd gan bob ACLl i ddarparu adnoddau ar eu cyfer o bosibl?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |

## Cefnogi'r newid i Gynlluniau Datblygu Strategol

102. Rydym mewn sefyllfa gref yng Nghymru, gan fod gan bob ACLl Gynllun Datblygu Lleol, ac mae hyn yn gyflawniad sylweddol. Ar ben hynny, mae pedwar ACLl wedi mabwysiadu CDLl newydd, ac mae 18 o ACLlau eraill wedi dechrau diwygio eu cynlluniau mabwysiedig yn ffurfiol.

103. O gymharu â hynny, mae cynnydd o ran Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) wedi bod yn araf. Nid oes rhwystrau gweithdrefnol yn atal CDSau rhag cael eu cyflwyno gan fod y ddeddfwriaeth berthnasol mewn grym ers 2020. Rydym yn disgwyl i'r Cytundebau Cyflawni cyntaf gael eu cyflwyno gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig eleni.

104. Ein gweledigaeth ar gyfer y system cynlluniau datblygu yng Nghymru yw sicrhau bod pob ACLl yn parhau i fod wedi mabwysiadu CDLl, a hynny yn y ffordd fwyaf hwylus ac effeithlon, gan hwyluso newid tuag at ddull rhanbarthol drwy CDSau. Diwygiadau i CDLlau fydd y camau byrdymor/tymor canolig tuag at lunio CDS a fydd yn pennu'r weledigaeth a'r trywydd ar gyfer y tymor hwy. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn golygu y caiff adnoddau technegol (gwaith a staff) eu rhannu rhwng y ddwy haen o gynlluniau, er mwyn osgoi dyblygu. Felly, mae'n bwysig sicrhau cydgysylltu cadarn rhwng gwaith yr ACLlau hynny i adolygu eu CDLlau a'r broses o ddatblygu'r CDSau ochr yn ochr â hynny. Fodd bynnag, o ystyried hyn, rydym yn cydnabod yr heriau o ran adnoddau sy'n wynebu ACLlau/Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac yn deall y bydd cyflawni'r ddwy haen o gynlluniau yn yr hinsawdd adnoddau bresennol yn dasg heriol.

### Ymestyn y cyfnod adolygu statudol ar gyfer CDLlau

105. Er mwyn sicrhau y caiff CDLlau eu diweddaru'n rheolaidd, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gynnal adolygiad llawn o'u CDLlau o leiaf unwaith bob pedair blynedd ar ôl eu mabwysiadu, neu'n gynt na hynny os bydd canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn dangos pryderon sylweddol â'r ffordd y caiff cynllun ei roi ar waith.

106. Er mwyn helpu ACLlau i symud tuag at gynllunio rhanbarthol, rydym yn ystyried ymestyn y cyfnod adolygu statudol yn y Rheoliadau CDLlau (Rheoliad 41) o bedair blynedd i chwe blynedd. Rydym wedi parhau i ddiwygio ein system gynllunio ers 2015 drwy lawer o newidiadau deddfwriaethol a newidiadau polisi. Ar y sail hon, mae CDLlau mwy diweddar wedi bod yn ddarostyngedig i ofynion mwy cymhleth o ran deddfwriaeth, polisi a chanllawiau. Yn ogystal â hynny, mae'r egwyddor o roi mwy o bwyslais ar y camau rhagarweiniol yn golygu bod cryn dipyn o dystiolaeth a manylion yn sail i CDLlau a fabwysiadwyd yn ddiweddar ac wedi'u cynnwys ynddynt. Mae angen llawer o adnoddau ariannol ac adnoddau staffio i baratoi CDLlau. Gwyddom hefyd fod angen llawer o adnoddau ar gymunedau a rhanddeiliaid yn y broses CDLl.

107. Gan fod gan bob ACLl yng Nghymru CDLl erbyn hyn, nawr yw'r adeg gywir i fyfyrio ar b'un a yw'r cyfnod adolygu statudol presennol o bedair blynedd yn addas at y diben ai peidio, ac ystyried a yw'n adlewyrchu'r cyd-destun presennol sy'n gysylltiedig â pharatoi CDLlau, o ran deddfwriaeth, polisi ac adnoddau.

108. Credwn y gallai ymestyn y cyfnod adolygu ar gyfer CDLlau o bedair blynedd i chwe blynedd ryddhau staff ac adnoddau ariannol o fewn ACLlau er mwyn cefnogi'r

newid i baratoi CDSau yn well. Bydd hefyd yn rhoi mwy o amser i ACLlau allu canolbwyntio ar gyflawni'r cynllun a'i roi ar waith.

109. Pe bai'r cyfnod adolygu'n cael ei ymestyn o bedair blynedd i chwe blynedd, ni fyddai hyn yn atal ACLl rhag dechrau adolygu/diwygio ei CDLl yn gynt pe bai'n penderfynu gwneud hynny yn seiliedig ar Adroddiadau Monitro Blynyddol ac unrhyw Adroddiad Adolygu.

| | |
|---|---|
| **C60** | Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i newid y cyfnod adolygu statudol ar gyfer CDLlau o bedair i chwe blynedd?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C61** | Ydych chi'n credu y byddai cyfnod adolygu byrrach neu hwy yn fwy priodol?<br><br>**Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod. Rhowch eich rhesymau.** |
| **C62** | Beth fyddai'r goblygiadau o ran adnoddau, gan gynnwys adnoddau staff ac adnoddau ariannol, pe bai'r cyfnod adolygu statudol yn cael ei newid yn gyfnod adolygu chwe blynedd?<br><br>**Rhowch ddata a thystiolaeth.** |
| **C63** | I ba raddau y byddai cyfnod adolygu chwe blynedd yn helpu ACLlau i symud tuag at yr agenda gyflawni ranbarthol?<br><br>**Rhowch eich rhesymau.** |

## Effeithiau ar y Gymraeg

110. Rydym wedi ystyried y cynigion yn y papur hwn ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw effeithiau, cadarnhaol neu negyddol, ar unrhyw fusnes, grŵp nac unigolyn. Mae Rhan 1 y papur ymgynghori hwn yn ymwneud yn bennaf â mesurau ariannol. Bydd y rheoliadau ar ffioedd newydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hynny'n eu gwneud yn fwy derbyniol i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

111. Mae Rhan 2 y papur hwn yn cynnwys cynigion yr ydym ond yn dechrau eu datblygu ac nid ydynt wedi'u cadarnhau'n derfynol eto. Nid ydym yn rhagweld effeithiau negyddol ar unrhyw fusnes, grŵp nac unigolyn. Ond rydym yn awyddus i glywed am unrhyw effeithiau y gallai ein cynigion eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| | |
|---|---|
| **C64** | Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol ein cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?<br>Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?<br><br>**Esboniwch a rhowch eich rhesymau** |

| | |
|---|---|
| **C65** | Yn eich barn chi, a allai unrhyw rai o'ch cynigion gael eu llunio neu eu newid er mwyn iddynt:<br>- gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu<br>- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?<br><br>**Esboniwch a rhowch eich rhesymau** |